AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

# Cynllun Corfforaethol

## 2004/2005 - 2006/2007

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**
**National Museums & Galleries of Wales**

# CYNLLUN CORFFORAETHOL

## 2004-2005 - 2006-2007

**www.aocc ac.uk**

# CYNLLUN CORFFORAETHOL

# 2004-2005 - 2006-2007

## Cynnwys


**Rhagair y Llywydd**

**Crynodeb gwelthredol**

**1. Rhagarweiniad**

**2. Her a chyfle**

**3. Gweithredu**

**4. Rhagdybiaethau allweddol**

**5. Y Goblygiadau ariannol**

**6 Blaenoriaethau AOCC ar gyfer cyllid ychwanegol 2003-2007**

**7. Cynllunio rhag rhaid a mesurau effeithlonrwydd**

**Atodiad**
**Ein hamgueddfeydd**

## RHAGAIR Y LLYWYDD

Pleser o'r mwyaf i mi yw cyflwyno Cynllun Corfforaethol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a chydnabod ei fod yn adeiladu ar y gwaith rhagorol a wnaed gan fy rhagflaenydd, Mathew Prichard a'i Is-Lywydd, Roger Thomas. Mae'n disgrifio cyfleoedd pwysig ar gyfer datblygu swyddogaeth yr Amgueddfa, ym mywyd diwylliannol ac addysgiadol Cymru, sy'n sylweddol eisoes, a chynnal strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy hynny. Mae'n debyg mae dyma fydd y cynllun olaf ar ei ffurf bresennol. Bydd fersiynau'r dyfodol yn adlewyrchu'r gwaith y bydd AOCC yn ei wneud, o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Michael Houlihan ac mewn ymgynghoriad â'r budd-ddeiliaid, i ddisgrifio gweledigaeth y sefydliad wrth iddo fynd i mewn i'w ail ganrif yn 2007.

Yn yr adroddiad, fe welwch ein dyheadau i ddatblygu ymhellach ein cylch gwaith o dan y siarter i ddatblygu addysg ac i sicrhau bod ein gwaith yn parhau i fod yn berthnasol i bob rhan o'r gymdeithas. Mae ein gwaith yn helpu i hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol y genedl, mae'n sail i lawer o'r gwaith ar wyddorau naturiol a daeareg yng Nghymru ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi drwy'r diwydiant twristiaeth.

Ysgrifennwyd y cynllun gan wybod bod yr Amgueddfa wedi ymrwymo i gwblhau rhaglen ddatblygu o bwys a dylid edrych ar yr angen a nodwyd am gyllid ychwanegol yng nghyd-destun rhoi'r datblygiadau newydd hyn ar waith yn ogystal ag uwchraddio'r cyfleusterau sydd gennym eisoes er mwyn iddynt aros yn berthnasol i'n hymwelwyr.

Hoffem ategu ein hymrwymiad i'r rhaglen bartneriaeth *Cyfoeth Cymru Gyfan - Sharing the Treasures* sydd eisoes wedi ymestyn mynediad i'r Trysorau Cenedlaethol yng nghymunedau Cymru. Yn yr un modd, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chyrff a thrigolion yn Sir Benfro wrth fwrw ymlaen â'r cynigion ar gyfer creu cyfleuster newydd yn y sir er mwyn i weithiau Graham Sutherland gael eu harddangos yno'n rheolaidd. Mae datblygiadau o'r fath yn allweddol er mwyn i ni gyflawni ein cylch gorchwyl cenedlaethol. Un o'r meini clo wrth hwyluso'r polisi hwn o ymestyn mynediad i'r Casgliadau Cenedlaethol yw datblygu Canolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol newydd yn Nantgarw, ac rydym yn ddiolchgar am y cyllid sylweddol a gawsom oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad i'n cynorthwyo ni yn hynny o beth.

Ni ellir gwireddu potensial y casgliadau cenedlaethol heb ein rhaglenni curadurol, gan gynnwys gwaith ymchwil. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i gasgliadau'r genedl gael eu defnyddio i'n galluogi ni i ddeall o ble rydym ni wedi dod fel cenedl yn ogystal â helpu i roi gweledigaeth hyderus i ni ar gyfer y dyfodol.

Mae'r cynllun yn gosod sialensiau sylweddol y mae AOCC yn barod i fynd i'r afael â nhw ac rydym yn edrych ymlaen at gael gweithio gyda'n budd-ddeiliaid a Llywodraeth y Cynulliad i adeiladu Cymru hyderus sy'n edrych i'r tu allan.

Mae'r cynllun hwn yn brawf o'n hymrwymiad i gyflawni hyn ac am hynny yr wyf yn ei gymeradwyo i chi.

Paul E Loveluck CBE YH
Llywydd

## Crynodeb Gweithredol

### 1.0 Rhagarweiniad

Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) yn gorff siartredig annibynnol ac yn elusen gofrestredig; rydym yn derbyn ein cyllid craidd ar ffurf cymhorthdal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC). Fe'n crëwyd ac rydym yn bodoli i hyrwyddo addysg y cyhoedd; rydym yn datblygu ein casgliadau, yn gofalu amdanynt, yn eu hastudio ac yn annog pobl i ddod i'w gweld er budd y gymdeithas yn gyffredinol.

Mae AOCC yn gweithredu amgueddfeydd mewn chwe lleoliad ar draws Cymru ar hyn o bryd:

| | | |
|---|---|---|
| Yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol | ym Mharc Cathays, Caerdydd | (AOG) |
| Amgueddfa Werin Cymru | yn Sain Ffagan, Caerdydd | (AWC) |
| Amgueddfa'r Lleng Rufeinig | yng Nghaerllion, Casnewydd | (ALIR) |
| Amgueddfa Lechi Cymru | yn Llanberis, Gwynedd | (ALC) |
| Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru | yn Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin | (ADGC) |
| Pwll Mawr: | | |
| Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru | ym Mlaenafon, Torfaen | (PM) |

Byddwn yn dechrau gweithredu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA) fel rhan o AOCC yn 2005.

Byddwn hefyd yn datblygu'r Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, i greu Canolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol (CGMG) i ddarparu cyfleusterau ar gyfer rheoli casgliadau modern a gwneud ein gweithgareddau cadwraeth yn fwy amlwg i'r cyhoedd. Mae'n hanfodol ehangu'r cyfleuster hwn er mwyn darparu cefnogaeth ddigonol i'n rhaglen o ddatblygiadau o bwys a gwireddu ein dyheadau ar gyfer ein Rhaglen Partneriaethau, gan wneud ein casgliadau'n fwy hygyrch a'u dehongli'n well.

### 2.0 Her a Chyfle

Rydym yn rhannu gweledigaeth gyffredin gyda'r corff sy'n ein noddi sef Llywodraeth y Cynulliad, sy'n gweithio i greu Cymru hyderus sy'n edrych i'r tu allan. Er mwyn gwireddu hynny, enwyd cefnogi datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfanteision cymdeithasol a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yng nghynllun strategol Llywodraeth y Cynulliad (Cynllun Cymru 2001). Drwy ein casgliadau a'n gwybodaeth arbenigol, a thrwy hyrwyddo cyfleoedd dysgu hygyrch fel rhan arferol o ymweld ag amgueddfa, gallwn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes sy'n hanfodol i gyflawni'r nodau hyn.
Fel un o Amgueddfeydd Cenedlaethol Prydain ac fel elusen gofrestredig, mae gennym gyfrifoldeb dros ddiogelu ein prif asedau diwylliannol a threftadaeth naturiol yn wastadol ar gyfer y dynol ryw. Fel cadwrfeydd tystiolaeth faterol ac fel canolfannau dysg a gwybodaeth arbenigol, mae gwaith yr Amgueddfeydd Cenedlaethol yn ymestyn y tu hwnt i'r cyd-destun cenedlaethol, gan ddylanwadu ar bolisi amgueddfeydd y DU ac Ewrop. Mae gwaith ymchwil ar sail casgliadau ac ysgolheictod wrth galon gweithgarwch yr amgueddfa ac maent yn gysylltiedig yn annatod â'u swyddogaethau craidd eraill o gasglu a dehongli i'r cyhoedd.

### Yr Her

Seilir y Cynllun hwn ar ymateb i bum mater strategol sydd wedi ffurfio fframwaith ein dogfennau cynllunio ers tair blynedd bellach, ac sy'n diffinio'n perthynas ag agenda Llywodraeth y Cynulliad:

- Rhaid i ni sicrhau bod y pethau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu cydnabod yn eang fel rhai sy'n berthnasol i anghenion cymdeithas gynhwysol

- Rhaid i ni barhau i wneud ein casgliadau a'u gwybodaeth gynhenid yn hygyrch i gynulleidfa

ehangach fyth

- Rhaid i ni sicrhau ein bod yn gallu gofalu'n iawn am y casgliadau a'r ystadau a ymddiriedwyd i'n gofal

- Rhaid i ni hyrwyddo arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, a datblygu diwylliant meddwl-agored

- Rhaid i ni wella ein sail ariannu er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau.

Cyrhaeddir pob un o'r nodau hyn drwy amcanion craidd tymor-hir a ategir gan amcanion tymor-byr ar gyfer newid.

**Sut fyddwn ni'n codi i'r her?**

Wrth fynd i'r afael â'r problemau hyn, rydym yn chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni ein nod a'n dyheadau ariannol. Yn ystod oes y Cynllun hwn, byddwn yn ehangu ein gallu i gyrraedd pobl drwy bartneriaethau wrth barhau i adeiladu ar ein cryfderau mewn stiwardiaeth, ysgolheictod ac addysg er mwyn ategu themâu cydblethol Llywodraeth y Cynulliad, sef cynaliadwyedd a chyfleoedd cyfartal, drwy:

- gyfrannu'n sylweddol at economi Cymru drwy barhau i ddenu buddsoddiadau o'r tu allan ac ysgogi adfywiad economaidd ardal ehangach drwy agor amgueddfa flaengar a blaenllaw – Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGG) – mewn partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe

- manteisio i'r eithaf ar gefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad dros fynediad am ddim a'n rhaglen ni ein hunain o waith ymchwil yn y gymuned er mwyn sicrhau'r mynediad ehangaf posibl i'r casgliadau cenedlaethol i gynulleidfaoedd newydd – a thrwy hynny ymateb i nodau ac amcanion Llywodraeth y Cynulliad ei hunan ym meysydd addysg a pholisi cymdeithasol

- gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad, datblygu'r Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw a'i throi'n Ganolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol (CGMG) i wella ein gwasanaethau ar gyfer y casgliadau (i) er mwyn galluogi i gyfran uwch o'r casgliadau gael eu storio o dan amodau derbyniol yn unol ag argymhellion yr Arolwg Pum Mlynedd; (ii) er mwyn cyflwyno rhaglen barhaus i arddangos casgliadau cenedlaethol mewn sefydliadau lleol; a (iii) er mwyn cefnogi rhaglenni ymchwil a fydd yn datblygu ac yn gwella'r modd y dehonglir ein casgliadau

- gofalu'n well am ein casgliadau a'u gwneud yn fwy hygyrch drwy roi argymhellion ein harolwg o wasanaethau cadwraeth a dadansoddi ar waith, a gweithredu ar unrhyw argymhellion sy'n deillio o arolwg cyfredol y SAG o'n gwaith wrth reoli ein casgliadau

- llunio a hyrwyddo cynllun strwythuredig ar gyfer ein partneriaeth gydag amgueddfeydd, orielau a sefydliadau eraill i dynnu sylw at y ffaith y gellir gweld ein casgliadau ac elwa ar ein gwybodaeth arbenigol mewn amrywiaeth o ganolfannau ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar brojectau ar y cyd mewn canolfannau blaenllaw dethol

- chwarae rhan gynyddol wrth hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru yn well am faterion amgylcheddol, yn ogystal â thynhau ein data ymchwil unigryw a sicrhau bod mwy ohoni ar gael i'r cyhoedd, a datblygu i fod yn ganolfan ragoriaeth mewn meysydd allweddol, fel darparu gwasanaethau tacsonomig yng Nghymru

- diwygio ein dulliau rheoli – drwy adeiladu ar ein cryfderau fel corff elusennol sydd â pherthynas hyd-braich â'r Llywodraeth – er mwyn bodloni gofynion rhedeg amgueddfeydd cenedlaethol blaenllaw yng Nghymru mewn ffordd fwyfwy agored ac amlwg yn yr 21ain ganrif

- rhoi'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y Cynulliad yn sgil yr Arolwg Pum-mlynedd a gomisiynwyd yn 2000 ar waith.

Rydym wrthi'n llunio datganiad gweledigaeth a fydd yn creu fframwaith ar gyfer y deng mlynedd a mwy nesaf o ran cynllunio strategol. Bydd y broses hon yn golygu ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad a chyfranddeiliaid eraill.

**4.0 Rhagdybiaethau Allweddol**

Lluniwyd y Cynllun hwn yn ystod y cyfnod Mawrth-Mehefin 2003 ac o reidrwydd, gwnaed nifer o ragdybiaethau. Adeg llunio'r adroddiad, roedd y sefyllfa wleidyddol ac economaidd rhyngwladol yn ddigon ansicr. Bydd angen cadw llygad barcud ar effaith yr ansicrwydd estynedig hwn ar ein gweithgareddau fel y gellir addasu yn y modd priodol os bydd rhaid.

**5.0 Y Goblygiadau Ariannol**

Mae yna nifer o oblygiadau ariannol yn deillio o'r Cynllun hwn. Rydym yn croesawu'n fawr iawn y cynnydd yn ein grant refeniw ar gyfer 2003-04 diolch i gyfraniad Llywodraeth y Cynulliad at y cynnydd mewn cyflogau a ddeilliodd o'r archwiliad o gyflogau cyfartal. Mae'r cynllun ariannol yn adlewyrchu effeithiau parhaus yr arolwg hwn ar gostau yn y blynyddoedd sy'n weddill o dan y Cynllun cyfredol.

Gyda mwy o bwyslais ar wneud yr elw mwyaf posibl drwy'r Cwmni Masnachu, mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer twf bychan o 5% y flwyddyn ar hyn o bryd, ar ffurf trosglwyddiad wedi ei gyfamodi o gyllid y cwmni i goffrau'r Amgueddfa. Bydd ffrydiau incwm eraill yn ei chael hi'n anodd darparu twf o fwy na 2% ac, yn yr un modd, byddai'n annoeth targedu twf sylweddol mewn cyllid preifat yn yr hinsawdd economaidd ansicr sydd ohoni.

Yn y gorffennol, rydym wedi defnyddio ein cyllid a'n hincwm craidd i ddenu arian pellach o ffynonellau eraill fel CDL a chronfeydd Ewropeaidd i gynorthwyo gyda datblygiadau cyfalaf a phrynu eitemau newydd – a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Mae'r ffynonellau hyn yn ein galluogi i gyflawni gweithgareddau fel ailddatblygu Pwll Mawr ac ADGC ynghyd â chreu'r AGG yn Abertawe. Cymeradwywyd gwerth £26,600,000 o gyllid o'r ffynonellau eraill hyn yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Mae arolygon annibynnol o gyflwr ystâd AOCC wedi dangos bod cost go iawn y gwaith cynnal-a-chadw parhaus yng nghyffiniau £1.2 y flwyddyn, a hynny yn erbyn grant cyfalaf sydd wedi cael ei hoelio ar lefel o £775,000 y flwyddyn ers 1996-7. Un o'r prif broblemau sydd wedi codi yn sgil cyflwyno mynediad am ddim yw bod y fath niferoedd o ymwelwyr wedi cynyddu'r traul ar ein hamgueddfeydd. Er y gellir talu am beth o'r gwaith adfer ac adnewyddu drwy ddefnyddio cyllid amgen, fel cyfraniadau ychwanegol, a thrwy ailasesu blaenoriaethau mewnol, bydd angen dod o hyd i adnoddau ychwanegol er mwyn cynnal ein hamgueddfeydd i safon dderbyniol. O gymryd y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth ailwampio arddangosfeydd parhaol i ystyriaeth hefyd, byddai angen mwy na £2m y flwyddyn i sicrhau bod y symiau priodol yn cael eu buddsoddi mewn adeiladwaith ac offer.

Rydym yn cyflawni swyddogaethau'r holl amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol a geir yn Llundain ar gyfer Cymru, felly gallai ein caffaeliadau mewn blwyddyn gynnwys peintiadau pwysig, cerbydau hanesyddol, casgliadau pwysig o ffosiliau neu blanhigion, celc o ddarnau arian, a hyd yn oed adeilad cyfan y mae angen ei ddatgymalu a'i ailgodi. Mae'r gostyngiadau sylweddol diweddar yn y Grant Prynu Sbesimenau wedi bod yn destun pryder; ond mae'r ffaith fod Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi'n ddiweddar y byddent yn fodlon adolygu'r sefyllfa pe bai posibilrwydd i ni golli caffaeliad arwyddocaol fel arall, wedi cynnig tawelwch meddwl i ni.

**6.0 Ceisiadau am gyllid ychwanegol - wedi eu crynhoi a'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth:**

1. Mynd i'r afael â'r diffyg yn ein cronfa bensiynau sy'n deillio o berfformiad gwael y farchnad stoc
2. Mynd i'r afael â'r materion sy'n deillio o'r archwiliad cyflogau cyfartal
3. Hwyluso agor a gweithredu AGG
4. Cyllid refeniw i gefnogi datblygiad a gweithrediad CGMG
5. Cynnydd yn y cyllid cynnal-a-chadw craidd er mwyn sicrhau hygyrchedd ein hamgueddfeydd yn y tymor hir
6. Bwrw ymlaen â'n strategaethau ar gyfer gwaith partneriaeth
7. Datblygu oriel Cyflwyniad i Gymru yn AWC
8. Gwella arddangosiadau, arddangosfeydd a dehongli.

# 1.0 RHAGARWEINIAD

Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) yn gorff siartredig annibynnol ac yn elusen gofrestredig; rydym yn derbyn ein cyllid craidd ar ffurf cymhorthdal gan Lywodraeth y Cynulliad fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC). Fe'n crëwyd ac rydym yn bodoli i hyrwyddo addysg y cyhoedd; rydym yn datblygu ein casgliadau, yn gofalu amdanynt, yn eu hastudio ac yn annog pobl i ddod i'w gweld er budd y gymdeithas yn gyffredinol. Mae'r Siarter (1907, diwygiwyd ym 1991) yn nodi y dylid gwneud hynny:

*yn bennaf drwy ddarlunio'n llwyr ddaeareg, mwynyddiaeth, sŵoleg, botaneg, ethnograffeg, archaeoleg, celfyddyd, hanes a diwydiannau arbennig Cymru drwy gasglu, diogelu, egluro, cyflwyno a chyhoeddi gwrthrychau a phethau;*
at hynny, mae ein casgliad yn cynnwys eitemau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â Chymru ond sy'n:
*hyrwyddo addysg ac yn hybu ymchwil lenyddol a gwyddonol.*

Mae'r Siarter yn cysylltu'r celfyddydau a'r gwyddorau ac mae'r egwyddorion casglu a nodwyd ynddo llawn mor ddilys heddiw. Gellir addasu'r wybodaeth sydd yn y casgliadau i ateb gofynion newidiol diddordebau poblogaidd a ffocws ysgolheigaidd, boed wrth fynd i'r afael â themâu modern fel hunaniaeth ddiwylliannol, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol neu gysyniadau newydd mewn celfyddyd gain, ochr yn ochr ag ymrwymiad hirsefydlog i ofynion cwricwlwm yr ysgolion a diddordebau arbennig unigolion. Gall y gwahanol gasgliadau ddiwallu'r holl anghenion hynny o'u dehongli gan y rhai sy'n gofalu amdanynt, gan adrodd straeon dirifedi am Gymru a'r byd. O safbwynt darlunio'n llwyr fodd bynnag, mae'r hyn roedd y Siarter yn ei weld fel cysyniad hydrin ganrif yn ôl yn mynd yn fwyfwy anodd yn ymarferol oherwydd wrth i'n casgliadau ehangu, mae costau'r sy'n gysylltiedig â phrynu eitemau a gofalu amdanynt yn wastadol yn cynyddu. Yn ychwanegol at hynny, oherwydd datblygiadau ym myd gwyddoniaeth, gwyddor amgueddfeydd a darpariaeth addysgol, mae bodloni disgwyliadau ein hymwelwyr yn her barhaus; mae'r gweithgareddau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn ceisio ymateb i'r materion hyn yn llawn.

Rydym yn gweithredu amgueddfeydd mewn chwe lleoliad ar draws Cymru ar hyn o bryd:

| | | |
|---|---|---|
| **Yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol** | **ym Mharc Cathays, Caerdydd** | **(AOG)** |
| **Amgueddfa Werin Cymru** | **yn Sain Ffagan, Caerdydd** | **(AWC)** |
| **Amgueddfa'r Lleng Rufeinig** | **yng Nghaerllion, Casnewydd** | **(ALIR)** |
| **Amgueddfa Lechi Cymru** | **yn Llanberis, Gwynedd** | **(ALC)** |
| **Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru** | **yn Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin** | **(ADGC)** |
| **Pwll Mawr:** | | |
| **Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru** | **ym Mlaenafon, Torfaen** | **(PM)** |

Yn ystod oes y cynllun hwn, byddwn yn dechrau gweithredu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGG) fel rhan o AOCC.

Byddwn hefyd yn datblygu'r Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, i greu Canolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol (CGMG) i ddarparu cyfleusterau ar gyfer rheoli casgliadau modern a gwneud ein gweithgareddau cadwraeth yn fwy amlwg i'r cyhoedd. Mae'n hanfodol ehangu'r cyfleuster hwn er mwyn darparu cefnogaeth ddigonol i'r rhaglen o ddatblygiadau o bwys a gwireddu ein dyheadau ar gyfer ein Rhaglen Partneriaethau, gan wneud ein casgliadau'n fwy hygyrch a'u dehongli'n well.

Adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd y sefyllfa wleidyddol ac economaidd rhyngwladol yn ddigon ansicr. Bydd angen cadw llygad barcud ar effaith yr ansicrwydd estynedig hwn ar ein gweithgareddau fel y gellir addasu yn y modd priodol os bydd rhaid.

Mae cynnal Amgueddfa Genedlaethol yn golygu rheoli amrywiaeth eang o dasgau yn ychwanegol at y rhai sy'n gysylltiedig â gweinyddu sefydliad cymhleth ar sawl safle gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **cyflwyno a defnyddio** ein casgliadau at ddibenion dysgu gydol oes a mynediad

- **gwella'r** casgliadau drwy gaffael, rhoddion, prynu a chymynroddion

- **nodi a dogfennu cynnwys** casgliadau newydd wrth iddynt ddod i'n meddiant a gwella cofnodion papur presennol a'u trosglwyddo i systemau gwybodaeth modern ar gyfrifiaduron fel ein bod yn gwybod pa bethau yn union sydd yn ein meddiant, eu lleoliad a'u cyflwr, a'n bod yn gallu ateb ymholiadau'n haws

- **cadw'r** casgliadau o dan yr amodau mwyaf diogel a gorau posibl er mwyn arafu dirywiad naturiol yr holl ddeunyddiau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys monitro parhaus a gwella'r mannau storio gan nad yw llawer o'r llefydd hynny, am amryw o resymau hanesyddol, yn addas i'r gorchwyl

- **diogelu** ac adfer yr eitemau hynny mae angen eu sefydlogi neu sy'n cael eu harddangos, fel eu bod yn addas i gael eu harddangos a'u defnyddio; mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau dadansoddi a labordy

- **ymchwilio** i gasgliadau a **dehongli** canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn drwy gatalogau, papurau, cyhoeddiadau poblogaidd, arddangosiadau ac arddangosfeydd diriaethol (o fewn un o'n hamgueddfeydd) a rhithwir (ar ein gwefan) mewn ffyrdd sy'n cynnig mwynhad, yn cyfoethogi ac yn addysgu pawb, ac ateb cwestiynau'r cyhoedd am Gymru a'i dyfodol

- **agor ein hamgueddfeydd** gan sicrhau bod y casgliadau'n cael eu gwarchod rhag niwed, bod y mannau arddangos yn ddiogel a bod y cyfleusterau o'r safon uchaf, a bod ein casgliadau a'r wybodaeth sy'n gynhenid ynddynt yn cael eu dehongli ar gyfer y cyhoedd yn y ffyrdd mwyaf hygyrch, perthnasol a chofiadwy

- **hyrwyddo** ein hamgueddfeydd a'n gwybodaeth arbenigol er mwyn i'r gynulleidfa ehangaf bosibl wybod am ein casgliadau.

Amcangyfrifir fod dros 90% o'n hadnoddau yn mynd i dalu costau sefydlog cyflogau, gwasanaethau a chytundebau chynnal-a-chadw'r ystadau sy'n hanfodol wrth gyflwyno'r meysydd gweithgarwch hyn.

# 2. HER A CHYFLE

## 2.1 AOCC a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rydym yn rhannu gweledigaeth gyffredin gyda'r corff sy'n ein noddi sef Llywodraeth y Cynulliad, sy'n gweithio i greu Cymru hyderus, sy'n edrych i'r tu allan. Er mwyn gwireddu hynny, nodwyd bod cefnogi datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfanteision cymdeithasol a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yng nghynllun strategol Llywodraeth y Cynulliad (*Cynllun Cymru 2001*). Drwy ein casgliadau a'n gwybodaeth arbenigol, a thrwy hyrwyddo cyfleoedd dysgu hygyrch fel rhan arferol o ymweld ag amgueddfa, gallwn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes sy'n hanfodol i gyflawni'r nodau hyn. Rhestrir enghreifftiau uniongyrchol o sut rydym yn cefnogi cynllun strategol Llywodraeth y Cynulliad yn Nhablau 1 a 2.

## 2.2 AOCC fel Amgueddfa Genedlaethol

Fel un o Amgueddfeydd Cenedlaethol Prydain ac fel elusen gofrestredig, mae gennym gyfrifoldeb dros ddiogelu ein prif asedau diwylliannol a threftadaeth naturiol yn wastadol ar gyfer y dynol ryw. Sefydlwyd y rhan fwyaf o'n Hamgueddfeydd Cenedlaethol rhwng ail hanner y 18fed ganrif a blynyddoedd cynnar yr 20fed ganrif pan roedd Prydain yn rym gwleidyddol ac economaidd blaenllaw gydag ymerodraeth oedd yn ymestyn i bedwar ban y byd. Maent yn sefydliadau blaenllaw yn rhyngwladol yn eu gwahanol feysydd, oherwydd ehangder a chyfoeth eu casgliadau. Mae eu casgliadau, sy'n dystiolaeth faterol o wareiddiadau a aeth heibio neu gyfnodau yn esblygiad y byd naturiol, yn cynnig cliwiau hollbwysig i hanes ein planed a'r ddynol ryw, na ellir mo'u traddodi, yn aml, mewn unrhyw ffurf ddibynadwy arall.

Mae'r etifeddiaeth hanesyddol hon yn golygu fod ganddynt swyddogaeth a chyfrifoldeb byd-eang. Am eu bod yn gadwrfeydd tystiolaeth faterol, ac yn ganolfannau dysg a gwybodaeth arbenigol, mae gwaith yr Amgueddfeydd Cenedlaethol yn ymestyn y tu hwnt i'r cyd-destun cenedlaethol, gan ddylanwadu ar bolisi amgueddfeydd y DU ac Ewrop. Mae gofalu am y casgliadau yn golygu gwaith ymchwil parhaus er mwyn diweddaru gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad: heb hynny, dim ond 'asedau cwsg' a fyddent ar eu gorau. Mae cydweithio a chyfnewid â chymheiriaid mewn amgueddfeydd, y byd academaidd a'r gymuned treftadaeth ryngwladol ehangach, a chynnal dialog gyda chynulleidfaoedd ym mhedwar ban y byd – yn yr amgueddfa, drwy arddangosfeydd, cyhoeddiadau ac yn fwy diweddar, ar y we fyd-eang – yn rhan annatod o'u bodolaeth.

## 2.3 Yr Her

Rydym ni wrthi'n llunio datganiad gweledigaeth a fydd yn creu fframwaith ar gyfer y deng mlynedd a mwy nesaf o ran cynllunio strategol. Bydd y broses hon yn golygu ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad a budd-ddeiliaid eraill. Rydym yn rhagweld felly y bydd strwythur a chynnwys ein dogfennau cynllunio strategol a gweithredol yn newid yn ystod y deuddeg mis nesaf. Fodd bynnag, seilir y Cynllun hwn ar ymateb i bum mater strategol sydd wedi ffurfio fframwaith ein dogfennau cynllunio ers tair blynedd bellach, ac sy'n diffinio ein perthynas â Llywodraeth y Cynullad. Cyrhaeddir pob un o'r nodau hyn drwy amcanion craidd tymor-hir a ategir gan amcanion tymor-byr ar gyfer newid.

<u>1. Rhaid i ni sicrhau bod y pethau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu cydnabod yn eang fel rhai sy'n berthnasol i anghenion cymdeithas gynhwysol</u>

Ym mis Ebrill 2001, darparodd Llywodraeth y Cynulliad gyllid ychwanegol i'n galluogi i gyflwyno mynediad am ddim i bawb i'n casgliadau parhaol, sydd wedi arwain at gynnydd aruthrol o ryw 87.7% yn nifer ein hymwelwyr. Cawsom dros 1.2m o ymwelwyr yn 2002-03, oedd cryn dipyn yn uwch na'n targed o 1.15m, ac sy'n cynnig tystiolaeth glir o gynnydd cyson a pharhaus. Yng Nghymru, lle mae yna dlodi sylweddol, mae polisi o'r fath wir yn atgyfnerthu ein gallu i gyfrannu at nod Llywodraeth y Cynulliad i gynnig cyfleoedd cyfartal i bawb mewn cymdeithas gynhwysol. Fodd bynnag, mae rhwystrau ymarferol a seicolegol eraill yn bod sy'n ein hatal rhag cyflwyno ein casgliadau i fwy byth

o ymwelwyr, ifanc a hen. Mae angen diweddaru llawer o'n horielau a'n harddangosiadau am y byddai cynulleidfaoedd newydd heddiw yn cael eu hystyried yn ddiflas ac yn anaddysgiadol. Bydd angen i ddatblygiadau'r dyfodol gynnwys arddangosion sy'n ymateb yn llawnach i ddiddordebau, gofynion a dyheadau ein defnyddwyr – presennol a phosibl – y byddwn yn holi eu barn yn gyson drwy raglenni ymchwil i ymwelwyr a phobl nad ydynt yn ymweld.

<u>2. Rhaid i ni barhau i wneud ein casgliadau a'u gwybodaeth gynhenid yn hygyrch i gynulleidfa ehangach fyth</u>

Mae ein casgliad helaeth o ddeunyddiau Cymreig a byd-eang yn ein gosod ni ymhlith y canolfannau gwybodaeth mwyaf blaenllaw o ran treftadaeth, diwylliant a hanes naturiol Cymru yn benodol, ac yn ein gosod ni mewn safle da hefyd i gyfrannu gwybodaeth am sawl agwedd ar amgylchedd y byd. Mae gwaith ymchwil ac ysgolheictod ar sail casgliadau wrth graidd gwaith amgueddfeydd, ac mae cysylltiad annatod rhwng hynny â'r swyddogaethau craidd eraill, sef casglu a dehongli i'r cyhoedd. Mae ein staff yn cyflawni rhaglen o waith maes ac ymchwil gyda'r nod o ddehongli a gwella meysydd penodol o'r casgliadau a hyrwyddo ysgolheictod yn ei ystyr ehangach. Mae hyn yn arwain at gyhoeddiadau, arddangosfeydd a digwyddiadau, yn ogystal â gwella curadu a chadwraeth y casgliadau.

Mae cynnig mynediad i sawl rhan o'r casgliadau a'r wybodaeth gysylltiedig yn mynd yn fwyfwy anodd. Nid oes unrhyw fuddsoddiad sylweddol wedi bod yn AWC ers blynyddoedd lawer sy'n golygu fod yr orielau a'r seilwaith yn hen-ffasiwn. Yn AOG, mae cartrefu'r casgliadau celf a gwyddoniaeth mewn un adeilad yn fwyfwy anodd wrth i'r casgliadau ehangu. Yn *Cyfoeth Cymru Gyfan – Sharing Treasures*, rydym yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i gynnig llawer mwy o fynediad i'n casgliadau a'n gwybodaeth arbenigol, gan greu *Amgueddfa Genedlaethol heb Furiau*. Rydym ni'n credu y bydd hyn o fudd i amgueddfeydd ac orielau ledled Cymru yn wyneb cystadleuaeth gynyddol o du marchnad hamdden helaeth. Mae datblygiadau modern mewn technoleg cyfathrebu fel y rhyngrwyd a'r we fyd-eang yn ein galluogi i agor ein casgliadau i amrywiaeth ehangach o ymwelwyr a darpar-ddefnyddwyr eraill.

<u>3. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn gallu gofalu'n iawn am y casgliadau a'r ystadau a ymddiriedwyd i'n gofal</u>

Fel prif gorff amgueddfeydd Cymru, ni yw cadwrfa genedlaethol tystiolaeth faterol o Gymru sy'n olrhain hanes dynol ryw a byd natur. Mae ein casgliadau aml-ddisgyblaeth yn cwmpasu archaeoleg, celf, bioamrywiaeth, daeareg a hanes cymdeithasol a diwydiannol, ac fe'u harddangosir ar safleoedd hanesyddol ac mewn adeiladau gwreiddiol ar draws Cymru. Mae ein cylch gorchwyl o ran casglu yn cynnwys gwrthrychau o'r tu hwnt i Gymru hefyd, sy'n helpu i osod ein cenedl yn ei chyd-destun rhyngwladol.

Er bod ein casgliadau wedi cronni dros gyfnod o ganrif, rydym yn dal i fod heb wybodaeth sylfaenol ynglŷn â rhai ohonynt. Yn yr un modd, nid yw'r holl gasgliadau cadw (ymchwil) yn cael eu storio mewn mannau priodol a hygyrch. Mae cyflwr rhai o'n cyfleusterau a'n hadeiladau storio yn wendid mawr, sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyflwr ein casgliadau yn ogystal ag atebolrwydd a mynediad. Bydd datblygu'r CGMG yn Nantgarw, gyda chymorth £3.5m gan Lywodraeth y Cynulliad, yn golygu y gellir cartrefu bron bob un o'n 4.7 miliwn o sbesimenau o dan amodau priodol. Bydd hefyd yn ganolfan strategol a fydd yn gwasanaethu anghenion ein hamgueddfeydd, yn enwedig yr AGG, a'n Rhaglen Bartneriaeth ehangach.

Un o'r prif broblemau sydd wedi codi yn sgil cyflwyno mynediad am ddim yw bod y fath niferoedd o ymwelwyr wedi cynyddu'r traul ar ein hamgueddfeydd. Er enghraifft, yn ôl fformwla a ddyfeisiwyd gan Jestico + Whiles, penseiri'r *Tŷ ar gyfer y Dyfodol* yn AWC, dioddefodd y tŷ gwerth dau gan mlynedd o draul arferol mewn cwta pedwar mis. Yn AOG, mae arddangosion fel anifeiliaid a deinosoriaid yn cael eu treulio'n ddifrifol wrth i bobl gyffwrdd ynddynt, i'r fath raddau fod angen eu hadnewyddu'n llwyr. Yn Oriel Glanely, mae'r perygl o ladrad wedi cynyddu gymaint nes bu'n rhaid penodi hwylusydd rhan-amser ychwanegol. At hynny, bu rhaid cynyddu oriau'r glanhawyr dros y Sul, a defnyddiwyd 10% yn fwy o nwyddau traul. Yn ALIR, mae copïau o arfwisgoedd y disgwylid iddynt

bara tair i bum mlynedd wedi para llai na blwyddyn. Tra gellir talu am beth o'r gwaith adfer ac adnewyddu drwy ddefnyddio cyllid amgen, fel cyfraniadau ychwanegol, a thrwy ailasesu blaenoriaethau mewnol, bydd angen dod o hyd i adnoddau ychwanegol er mwyn cynnal ein hamgueddfeydd i safon dderbyniol.

4. Rhaid i ni hyrwyddo arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, a datblygu diwylliant meddwl-agored

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ansawdd ac ymroddiad ein staff, sy'n dangos eu parodrwydd i addasu i ofynion newidiol byth a beunydd. Mae gennym ymrwymiad i gynnig cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd eraill i'w galluogi i wneud eu gwaith yn well fyth. Mae diffyg staff a gwybodaeth arbenigol i ofalu'n iawn am ein casgliadau a mynd i'r afael â'r ôl-groniad mawr o waith dogfennu, cadwraeth a churadu sydd angen ei wneud, yn ein hatal ni rhag edrych tua'r dyfodol a manteisio i'r eithaf ar ein potensial aruthrol fel sefydliad.

5. Rhaid i ni wella ein sail ariannu er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau

Er ein bod yn derbyn dros 90% o'n refeniw net ar ffurf cymhorthdal gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'r swm wedi bod yn gostwng mewn termau real ers 1995-6. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, fodd bynnag, bu cynnydd ar ffurf eu cyfraniad i'r costau'n deillio o arolwg cynhwysfawr o gyflogau a graddfeydd. Er gwaethaf y newid hwnnw, bu rhaid i ni geisio arbed arian sylweddol drwy fod yn fwy effeithlon er mwyn cynnal a gwella ein swyddogaethau craidd. Nid oes fawr ddim yn fwy y gellir ei wneud yn hynny o beth i arbed arian, a byddwn yn parhau i siarad â Llywodraeth y Cynulliad gyda'r bwriad o osgoi gorfod mynd ar ôl mesurau arbed arian a allai fod yn ddadleuol ac yn annerbyniol.

Yr un pryd, rydym wedi sefydlu cwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni ein hunain a fydd yn ceisio sicrhau'r elw mwyaf posibl yn ein meysydd masnachu. Bydd cyfansoddiad bwrdd y cwmni ynghyd â phenodiad Pennaeth Masnachu yn darparu'r ffocws masnachol angenrheidiol. Caiff yr elw cynyddol o'r gweithgareddau hyn ei ddefnyddio i'n helpu i gyflawni pethau ychwanegol, ac **nid** i warantu gweithgareddau sy'n bodoli eisoes.

Yn y gorffennol, rydym wedi defnyddio ein cyllid a'n hincwm craidd i ddenu arian pellach o ffynonellau eraill fel CDL a chronfeydd Ewropeaidd i gynorthwyo gyda datblygiadau cyfalaf a phrynu eitemau newydd – a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Mae'r ffynonellau hyn yn ein galluogi i gyflawni gweithgareddau fel ailddatblygu Pwll Mawr ac ADGC ynghyd â chreu'r AGG yn Abertawe. Mae'r cyllid a gymeradwywyd o'r ffynonellau eraill hyn yn ystod y tair blynedd diwethaf fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| CDL | £17,750,000 |
| Cronfeydd Ewropeaidd | £2,950,000 |
| Ffynonellau Eraill | £5,900,000 |
| **Cyfanswm** | **£26,600,000** |

### 2.4 Sut fyddwn ni'n codi i'r her?

Wrth fynd i'r afael â'r problemau hyn, rydym yn chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni ein nod a'n dyheadau ariannol. Yn ystod oes y Cynllun hwn, byddwn yn ehangu ein gallu i gyrraedd pobl drwy bartneriaethau wrth barhau i adeiladu ar ein cryfderau mewn stiwardiaeth, ysgolheictod ac addysg er mwyn ategu themâu cydblethol Llywodraeth y Cynulliad, sef cynaliadwyedd a chyfleoedd cyfartal, drwy:

- gyfrannu'n sylweddol at economi Cymru drwy barhau i ddenu buddsoddiadau i'r tu allan ac ysgogi adfywiad economaidd ardal ehangach drwy agor amgueddfa flaengar a blaenllaw – Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGG) – mewn partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe

- manteisio i'r eithaf ar gefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad dros fynediad am ddim a'n rhaglen ni ein hunain o waith ymchwil yn y gymuned er mwyn sicrhau'r mynediad ehangaf

posibl i'r casgliadau cenedlaethol i gynulleidfaoedd newydd – a thrwy hynny ymateb i nodau ac amcanion Llywodraeth y Cynulliad ei hunan ym meysydd addysg a pholisi cymdeithasol

- gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad, datblygu'r Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw a'i throi'n Ganolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol (CGMG) i wella ein gwasanaethau ar gyfer y casgliadau er mwyn (i) galluogi i gyfran uwch o'r casgliadau gael eu storio o dan amodau derbyniol yn unol ag argymhellion ein Harolwg Pum Mlynedd; (ii) adeiladu ar ein rhaglen barhaus i arddangos casgliadau cenedlaethol mewn sefydliadau lleol; a (iii) cefnogi rhaglenni ymchwil a fydd yn datblygu ac yn gwella'r modd y dehonglir ein casgliadau

- gofalu'n well am ein casgliadau a'u gwneud yn fwy hygyrch drwy roi argymhellion ein harolwg o wasanaethau cadwraeth a dadansoddi ar waith, a gweithredu ar unrhyw argymhellion sy'n deillio o arolwg cyfredol y SAG o'n gwaith wrth reoli ein casgliadau

- llunio a hyrwyddo cynllun strwythuredig ar gyfer ein partneriaethau ag amgueddfeydd, orielau a sefydliadau eraill ia fydd yn darparu ac yn proffilio mynediad i'n casgliadau a'n gwybodaeth arbenigol mewn amrywiaeth o ganolfannau ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar brojectau ar y cyd mewn canolfannau 'blaenllaw' dethol

- chwarae rhan gynyddol wrth hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru yn well am faterion amgylcheddol, yn ogystal â thynhau ein data ymchwil unigryw a sicrhau bod mwy ohoni ar gael i'r cyhoedd, a datblygu i fod yn ganolfan ragoriaeth mewn meysydd allweddol, fel darparu gwasanaethau tacsonomig yng Nghymru

- diwygio ein dulliau rheoli - drwy adeiladu ar ein cryfderau fel corff elusennol sydd â pherthynas hyd-braich â'r Llywodraeth – er mwyn bodloni gofynion rhedeg amgueddfeydd cenedlaethol blaenllaw yng Nghymru mewn ffordd fwyfwy agored ac amlwg yn yr 21ain ganrif

- rhoi'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y Cynulliad yn deillio o'r Arolwg Pum-mlynedd a gomisiynwyd yn 2000 ar waith.

Ein bwriad yw gweld **AOCC yn cael ei gydnabod gan y cyhoedd fel un o'r gemau yng nghoron ddiwylliannol Cymru, fel ffynhonnell ysbrydoliaeth yn ogystal â balchder i bobl Cymru**. Mae mynediad am ddim i'r holl gasgliadau parhaol yn rhan bwysig yn hyn o beth, a bydd yn helpu i sicrhau ein bod yn chwarae rhan gyflawn yn y gwaith o hyrwyddo amgylchedd naturiol godidog Cymru a'i threftadaeth ddiwylliannol. Rydym yn cydnabod bod gennym ran flaenllaw i'w chwarae wrth gyflwyno a datblygu strategaeth ddiwylliannol Llywodraeth y Cynulliad, sef *Cymru Greadigol* a'i dyheadau ar gyfer twf y diwydiant twristiaeth. Mae amgueddfeydd llwyddiannus yn darparu swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac yn denu ymwelwyr â'u pŵer i wario i mewn i ardaloedd lle mae twristiaeth yn hanfodol i'r economi. Fel aelod o *Cymru'n Creu* byddwn yn hyrwyddo bywyd diwylliannol a chreadigol unigryw Cymru yma ac mewn gwledydd tramor.

## Tabl 1 Sut cefnogwyd Cynllun Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002-03

| **Blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad** | **Cyflawniad** |
|---|---|
| **Datblygu'r wlad sy'n dysgu** | Cwblhawyd project yn y gymuned – *Ar Dir Cyffredin* – gyda'r nod o ddysgu sgiliau allweddol i oedolion ifanc y tu allan i addysg ffurfiol. Roedd y project, a ariannwyd drwy'r Gronfa Fynediad i Amgueddfeydd ac Orielau (CFAO) yn bennaf, yn edrych ar agweddau newydd at waith amgueddfa a threftadaeth gyda phobl ifanc dan anfantais mewn pedair cymuned ar draws Cymru.<br>Comisiynwyd Canolfan Ymchwil i Amgueddfeydd ac Orielau Prifysgol Caerlŷr i gyflawni project ymchwil sylweddol i bobl nad ydynt yn ymweld. Mae hynny wedi darparu canllawiau gwerthfawr i ddileu'r rhwystrau i ymweld a dysgu, gan nodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith datblygu cynulleidfa, a'n galluogi i gynhyrchu Cynllun Gweithredu dros Gynhwysiad Cymdeithasol erbyn mis Mawrth 2003. |
| **Economi fodern** | Bu i ni a'n partneriaid ddechrau ar y gwaith gwerth £30m o adeiladu AGG. Bydd y project yn creu 60 o swyddi parhaol yn yr amgueddfa pan fydd hi'n agor yn 2005.<br>Cychwynnwyd ar waith gwerth £7m i ailddatblygu PM, gan ddiogelu 55 o swyddi diolch i'r cyfraniad unigol mwyaf at adfywio Blaenafon fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.<br>Rydym yn parhau â'n gwaith ar broject gwerth £1.9m i ailddatblygu ADGC, gan greu neu ddiogelu hyd at 25 o swyddi mewn ardal Amcan 1. Bydd y project hefyd yn helpu i gefnogi diwydiant gwlân Cymru drwy sefydlu cronfa ddata dylunio genedlaethol ac ailgychwyn yr unig waith gorffennu brethyn cyflawn yng Nghymru.<br>Mae'r holl brojectau uchod mewn ardaloedd Amcan Un yng Nghymru.<br>Enillodd AWC – sef atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd Cymru o bell ffordd, gyda mwy na 650,000 o ymweliadau yn ystod 2001-02 – gategori *'Wow' Factor- Y Profiad Ymwelwyr Gorau* yng Ngwobrau Twristiaeth Bwrdd Croeso Cymru yn 2002. Enillodd ALC – a welodd gynnydd o 168% yn nifer yr ymweliadau yn 2001-02 – y categori *Naws am Le* am greu awyrgylch nodweddiadol Gymreig. |
| **Lle rydym yn byw** | Rydym eisoes wedi benthyca mwy na 3,000 o eitemau i dros 100 o ganolfannau cyhoeddus ledled Cymru. Lansiwyd *Cyfoeth Cymru Gyfan – Sharing Treasures* fel cynllun partneriaeth i ddatblygu arddangosiadau, arddangosfeydd, gweithgareddau addysgol ac |

| | |
|---|---|
| | allan estyn ar sail ein casgliadau a'n gwybodaeth arbenigol. Lansiwyd Cynlluniau Peilot yn Llangefni a Wrecsam. Mae gwaith dilynol yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth am ein gwaith wrth gyrraedd cynulleidfaoedd mewn rhannau eraill o Gymru. |
| **Hunaniaeth** | Yn ystod 2002-03 cafwyd cyfanswm o 1.2 miliwn o ymweliadau, 62% yn fwy nag yn 2000-01, y flwyddyn olaf cyn cyflwyno mynediad am ddim i bawb. Rhagorwyd yn sylweddol ar y targed o 1.15 miliwn a bennwyd ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad.<br>Dim ond 55% o gynnydd ar gyfartaledd a fu yn nifer yr ymwelwyr ag Amgueddfeydd Cenedlaethol Lloegr y tu allan i Lundain (sy'n cynnig cymhariaeth decach â ni) yn ystod 12 mis cyntaf mynediad am ddim. Mae hyn yn dangos yn glir fod effaith y polisi i gynnig mynediad am ddim i bawb i brif gasgliadau treftadaeth, celfyddyd a diwylliant y genedl wedi bod yn fwy yng Nghymru, ac wedi para am gyfnod hwy.<br>Mae AWC wedi cychwyn project i greu oriel *Cyflwyniad i Gymru* a fydd yn galluogi ei hymwelwyr i ddefnyddio'r amgueddfa a'i chasgliadau yn well i archwilio hanes, diwylliant a hunaniaeth genedlaethol Cymru a'u deall yn llawnach. |
| **Llywodraeth Fodern** | Bu i ni barhau i ymateb i argymhellion Arolwg Pum Mlynedd 2001, a sicrhaodd y Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y Cynulliad y cadwyd at yr holl amserlenni. Gosodwyd cynigion gerbron Llywodraeth y Cynulliad a oedd yn nodi newidiadau posibl yn ei dulliau llywodraethu a fyddai, o'u gweithredu, yn moderneiddio'r broses o wneud penderfyniadau o fewn y sefydliad wrth barhau i ddiogelu buddiannau'r amrywiaeth eang o grwpiau sy'n ei defnyddio. Caiff y cynigion hyn eu datblygu dros y flwyddyn nesaf ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad. |
| **Hyrwyddo TGCh** | Parhawyd i gefnogi *Casglu'r Gemau*, project digideiddio TGCh i ddod â gwybodaeth am gasgliadau a chyngor proffesiynol ar ddatblygu projectau o fewn cyrraedd pobl. Cyfrannwyd yn sylweddol hefyd at sefydlu *Diwyllrwyd Cymru*, project cenedlaethol a fydd yn parhau i adeiladu ar y wybodaeth arbenigol a'r safonau a ddatblygwyd gan brojecty *Casglu'r Gemau*.<br>Prif amcanion *Diwyllrwyd Cymru* yw:<br>■ hyfforddi aelodau *Cymru'n Creu* fel y gallant fanteisio ar dechnolegau ar-lein wrth gynnig gwasanaethau a chyfleusterau**;**<br>■ cyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy droi defnydd goddefol yn ddefnydd gweithredol;<br>■ ysgogi creu cynnwys digidol a'i gynnal;<br>■ arddangos yr arbedion maint sy'n deillio o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. |

## Tabl 2 Sut byddwn ni'n cefnogi Cynllun Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003-04

| Blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad | Amcan |
|---|---|
| **Datblygu'r wlad sy'n dysgu** | Yn ogystal â'r 200,000 o ymwelwyr sy'n dod i'n hamgueddfeydd mewn grwpiau addysg ffurfiol bob blwyddyn, mae 150,000 o ddysgwyr gydol-oes yn defnyddio ein gwasanaethau drwy raglen o dros 200 o ddigwyddiadau, o ddarlithiau a datganiadau cerddorol i weithdai hanes byw a pherfformiadau. Byddwn hefyd yn arbrofi â fframwaith *Ysbrydoli Dysg i Bawb* Resource. |
| **Economi fodern** | Yn sgil yr ailddatblygiad ym 1998 yn rhan o'n *Strategaeth ar gyfer Diwydiant*, gwelodd ALC gynnydd o 600% yn nifer yr ymweliadau. Caiff y rhaglen o waith ailddatblygu gwerth £7m yn PM ei chwblhau yn hydref 2003. Bydd gwaith yn parhau yn ADGC gyda'r nod o'i hailagor o dan ei henw newydd – Yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol – yng ngwanwyn 2004. Rydym hefyd wedi cymryd camau breision tuag at greu un o amgueddfeydd newydd mwyaf cyffrous Ewrop yng ngorllewin Cymru. Dylai'r gwaith gwerth £30m gael ei gwblhau yn 2005.<br>£39m fydd cyfanswm yn holl fuddsoddiad yn y projectau hyn – a'r cyfan ohono o fewn ardaloedd Amcan Un – daw llawer o'r cyllid o CDL, y WDA, BCC a Llywodraeth y Cynulliad. |
| **Lle rydym yn byw** | Byddwn yn cadarnhau swyddogaeth partneriaethau yn ein gwahanol weithgareddau, gan ganolbwyntio ar gynllun *Cyfoeth Cymru Gyfan – Sharing Treasures* drwy:<br>■ ddatblygu'r mentrau arbrofol yn Wrecsam, Ynys Môn a Phowys<br>■ ehangu'r broses o frandio benthyciadau i ganolfannau yng Nghymru<br>■ cynllunio tair menter newydd sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau gweledol<br>■ gwerthuso effaith gwaith arbrofol y ganolfan cofnodion bioamrywiaeth yn ne-ddwyrain Cymru<br>Byddwn hefyd yn cefnogi Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP) i ddatblygu Canolfan Sutherland ar gyfer *Celfyddyd a'r Amgylchedd* yn Nhyddewi<br>Byddwn ni'n cynllunio'n fanwl yr estyniad a fydd yn troi ein Canolfan Gasgliadau yn Nantgarw yn CGMG, a dod o hyd i'r cyllid sy'n weddill i gyd-fynd â'r cyllid datblygu cyfalaf gwerth £3.5m a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.<br>Yn 2003-04, byddwn yn defnyddio Mis yr Amgueddfeydd a'r Orielau a'r Mis Hanes Du i dargedu cynulleidfaoedd lleiafrifol ethnig yn benodol. Byddwn yn cyhoeddi casgliadau *Ar Dir Cyffredin*, ein project peilot gyda phobl ifanc 16-25 oed i fynd i'r afael â chynhwysiad cymdeithasol, ac yn adeiladu ar eu sail. |

| **Blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad** | **Amcan** |
|---|---|
| **Hunaniaeth** | Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y ddwy flynedd gyntaf o fynediad am ddim drwy bennu targed uchelgeisiol o 1.25 miliwn o ymweliadau â'n hamgueddfeydd. Byddwn hefyd yn defnyddio canlyniadau arolygon ymwelwyr a gwaith ymchwil er mwyn ymestyn mynediad i dreftadaeth a diwylliant Cymru i amrywiaeth ehangach o bobl.<br>Byddwn yn dechrau cynnal astudiaethau ymarferoldeb ar gwestiynau penodol yn ymwneud â lleoliad oriel gelf genedlaethol ar gyfer Cymru, ac yn datblygu'r cynigion a gaed yn y papur ymgynghori, *Golygon y Dyfodol*.<br>Byddwn yn datblygu cynlluniau a cheisiadau am gyllid i dalu am adnewyddu ein harddangosiadau gwyddoniaeth ac archaeolegol a chreu *Oriel Cyflwyniad i Gymru* yn AWC. Bydd gan y datblygiad arfaethedig ran bwysig i'w chwarae wrth greu poblogaeth sy'n oddefgar o'i gilydd, sy'n gysurus ag ethos dwyieithrwydd ac yn ymfalchïo yn amrywiaeth ei threftadaeth a'r traddodiadiadau ieithyddol.<br>Gan weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad wrth iddi weithredu ei strategaeth ddiwylliannol, *Creative Future: Cymru Greadigol*, byddwn yn chwarae rhan flaenllaw yn *Cymru'n Creu* drwy gefnogi Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Bwrdd Croeso Cymru a meithrin perthynas briodol gyda CyMAL.<br>Gan weithio gyda'r Academi Gymreig a chyrff eraill i hyrwyddo'r gwaith o gyhoeddi *Gwyddoniadur Cymru*, byddwn yn penodi Swyddog Project i ddatblygu Rhaglen Addysg y Gwyddoniadur. Byddwn yn cefnogi Cyngor Caerdydd yn ei waith i drefnu dathliadau canmlwyddiant Caerdydd fel dinas a'i hanner canmlwyddiant fel prifddinas yn 2005. |
| **Llywodraeth fodern** | Byddwn yn parhau i geisio newid ein system rheoli yn unol ag argymhellion yr Arolwg Pum Mlynedd. Byddwn yn diwygio strwythur y Llys a'r Paneli a'r drefn ar gyfer gwneud penodiadau i'r Cyngor. Byddwn yn llunio dogfen weledigaeth a fydd yn cynnig fframwaith strategol ar gyfer gweithrediad a datblygiad y sefydliad yn ystod y degawd nesaf. |
| **Hyrwyddo TGCh** | Byddwn yn datblygu ymhellach fuddiannau'r project cenedlaethol, *Casglu'r Gemau*, drwy chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu cynnwys ar gyfer Diwyllrwyd Cymru. Y prif amcanion fydd:<br>■ hyfforddi aelodau *Cymru'n Creu* fel y gallant fanteisio ar dechnolegau ar-lein wrth gynnig gwasanaethau a chyfleusterau;<br>■ cyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy droi defnydd goddefol yn ddefnydd gweithredol;<br>■ ysgogi creu cynnwys digidol a'i gynnal;<br>■ dangos arbedion maint drwy waith partneriaeth effeithiol. |

# 3.0 GWEITHREDU

Mae'r adran hon wedi ei threfnu yn ôl y materion strategol a restrir yn 2.3. Mae'n amlinellu sut rydym ni'n bwriadu cyflawni ein hamcanion. Mae dangosyddion perfformiad, sy'n mesur ein cynnydd mewn perthynas â'r amcanion craidd sydd ynghlwm wrth weithredu amgueddfeydd cenedlaethol, wedi eu cynnwys ym mhob adran. Bydd cynlluniau manwl a thargedau'n cael eu datblygu ar gyfer pob maes o'n gwaith ar sail flynyddol, ac yn cael eu cynnwys yn ein Cynlluniau Gweithredol.

## MATER STRATEGOL 1 – Rhaid i ni sicrhau bod y pethau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu cydnabod yn eang fel rhai sy'n berthnasol i anghenion cymdeithas gynhwysol

## AMCANION CRAIDD

**Byddwn yn:**

**3.1.1 ehangu amrywiaeth ein cynulleidfaoedd i gyrraedd grwpiau hynny â chynrychiolaeth isel ymhlith ein hymwelwyr a denu grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at agenda ehangach cynhwysiad cymdeithasol.**

Gan adeiladu ar lwyddiant dramatig ailgyflwyno mynediad am ddim ym mis Ebrill 2001, byddwn yn gweithredu cynlluniau datblygu cynulleidfa ar sail canlyniadau gwaith ymchwil i ymwelwyr a phobl nad ydynt yn ymweld er mwyn integreiddio gwaith addysg, marchnata a gwasanaethau ymwelwyr.

Yn benodol, byddwn yn parhau â'n gwaith diweddar wrth asesu'r rhwystrau posibl sy'n atal pobl rhag ymweld ag amgueddfeydd, gan ganolbwyntio ar grwpiau y gellid ystyried eu bod wedi eu heithrio'n gymdeithasol, er mwyn sicrhau ein bod yn dal i gynnwys pawb ym mhopeth a wnawn ni.

Yn unol â dymuniad Llywodraeth y Cynulliad i gynyddu, ehangu a chynnal mynediad i'n treftadaeth a'n diwylliant, byddwn yn cadw ein cynulleidfaoedd presennol a denu rhai newydd drwy ganolbwyntio ar raglennu ar gyfer y cyhoedd, marchnata, profiad yr ymwelydd, a mynediad deallusol, corfforol a rhithwir. Rhaid i ni ddifyrru yn ogystal ag addysgu ein cynulleidfaoedd drwy ddiffinio ein casgliadau, ein gwybodaeth a'n lle fel eiddo i bawb yn y gymuned.

**3.1.2 sicrhau bod ein swyddogaeth graidd wrth ddeall treftadaeth a diwylliant ac amgylcheddau naturiol Cymru yn cael ei chydnabod a'i pharchu yng Nghymru a'r tu hwnt.**

Mae ein casgliadau yn sail i hunaniaeth genedlaethol Cymru a'r cyfleoedd ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol sydd gan y wlad i'w cynnig i'r Cymry ac i ymwelwyr.

Byddwn yn gweithio gydag eraill ac mewn sawl cyfrwng (yn cynnwys technolegau gwe) i hyrwyddo AOCC fel sefydliad treftadaeth, diwylliant, celfyddydau, gwyddoniaeth a thwristiaeth flaenllaw yng Nghymru. Un mesur o'n llwyddiant yn y maes hwn fydd y defnydd cynyddol o'n gwefan. Mae ein partneriaid yn y gwaith hwn yn cynnwys consortiwm diwylliannol Llywodraeth y Cynulliad, *Cymru'n Creu* (yn enwedig Bwrdd Croeso Cymru (BCC), Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), CyMAL (y corff newydd a fydd yn cynnal gwell gwasanaethau i'r sectorau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru) a'r Llyfrgell Genedlaethol); y cyrff sy'n cyfrannu at *Gyfoeth Cymru Gyfan – Sharing Treasures* a phartneriaethau eraill sy'n seiliedig ar fenthyciadau, yn ogystal â'r cyfryngau torfol yng Nghymru, y DU a thramor.

Yng ngoleuni'r ansicrwydd presennol o gylch materion gwleidyddol ac economaidd rhyngwladol, byddwn yn gweithio gyda BCC ar unrhyw ymgyrchoedd arbennig i wrthbwyso'r lleihad disgwyliedig yn nifer yr ymwelwyr tramor.

### 3.1.3 cynnig arweiniad addysgol drwy hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth drwy gyfleoedd dysgu gydol oes.

Mae darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a mynediad wrth graidd popeth a wnawn ni; rydym yn gofalu am y casgliadau a'u defnyddio a'r wybodaeth gynhenid ynddynt er lles y cyhoedd. Rydym yn un o adnoddau addysgol allweddol Cymru. Mae cyngor ac arweiniad ein staff curadurol ac addysgol ymysg yr elfennau sy'n cynnal y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Nid yw addysg plentyn yn gyflawn heb ymweliad ag un neu ragor o'n hamgueddfeydd.

Mae ein casgliadau yn adnoddau unigryw at ddibenion addysg, a'n bwriad yw eu dehongli ar amrywiaeth o lefelau, gan ddefnyddio technegau llafar, clywedol a gweledol sy'n gwneud dysgu'n ddeniadol i bob ran o'r gymuned. Drwy fenthyca eitemau i ysgolion, colegau a chanolfannau cymunedol drwy ein Gwasanaethau Allestyn, a thrwy ddefnyddio technoleg fideo-gynadledda, byddwn yn galluogi pobl i elwa ar y casgliadau ehangach. At hynny, bydd pobl yn dal i allu defnyddio'r casgliadau cadw, drwy drefniant ymlaen llaw; bydd datblygiad CGMG yn Nantgarw yn cynnig cyfleoedd pellach i ddatblygu mynediad i'r casgliadau hyn. Drwy gynnig mynediad am ddim i'r casgliadau parhaol, bu modd i ni hyrwyddo ein posibiliadau cyfoethog o ran addysg gydol oes, a chaniatáu i amrywiaeth cynyddol o ddefnyddwyr, o bob oedran, cefndir a gallu, elwa ar hyn.

| Dangosydd Perfformiad | 2001-02 canlyniad | 2002-03 canlyniad | 2003-04 targed | 2004-05 targed | 2005-06 targed | 2006-07 targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymwelwyr | 1,150,000 | 1,278,449 | 1,250,000 | 1,250,000 | 1,500,000[a] | 1,500,000 |
| Nifer yr ymwelwyr mewn grwpiau addysg | 228,114[b] 141,187[c] | 205,956[b] 158,601[c] | 207,000[b] 155,000[c] | 209,000[b] 156,000[c] | 238,000[b] 176,000[c] | 238,000[b] 176,000[c] |
| % yr ymwelwyr cyffredinol sydd o grwpiau dan anfantais cymdeithasol | 37% | 37% | 38% | 38% | 38% | 38% |
| % yr ymwelwyr addysgol sydd o grwpiau dan anfantais cymdeithasol | [d] | [d] | [d] | [d] | [d] | [d] |
| % y casgliadau a ddehonglir drwy gyfryngau electronig[e] | 10.68% | 12.2% | 13.5% | 14.7% | 15.9% | 17% |
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan | 481,193 | 541,265 | 610,000 | 620,000 | 640,000 | 680,000 |
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan sy'n para dros 10 | 34,742 | 42,970 | 46,000 | 46,000 | 48,000 | 50,000 |
| Nifer y tudalennau gwe a ddarllenwyd | 1,831,221 | 1,995,973 | 2,200,000 | 2,400,000 | 2,600,000 | 2,800,000 |

[a] Bydd AGG yn agor yn 2005-06
[b] Addysg ffurfiol; [c] Addysg anffurfiol
[d] Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu fframwaith cydlynol i fesur a chyflawni'r dangosydd hwn
[e] ar sail maint y casgliad sy'n addas i'w gynnig yn elecronig – 4,100,000

Drwy gynnig mynediad i ran helaeth o etifeddiaeth tri-dimensiwn Cymru, rydym yn gwneud cyfraniad pwysig at agenda ddynamig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer dysgu gydol oes, *Y Wlad sy'n Dysgu*; byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o gydweithio'n agos i gyflawni ein dyheadau ni'n dau yn y maes hwn.

## AMCANION AR GYFER NEWID

### Byddwn yn:

**3.1.4 codi ymwybyddiaeth am ein partneriaethau gyda sefydliadau eraill, yn enwedig cynllun *Cyfoeth Cymru Gyfan - Sharing Treasures.***

Yn ystod oes y Cynllun, byddwn yn gweithio gyda chanolfannau a chyrff partner fel CyMAL a Chyngor y Celfyddydau i hysbysebu llwyddiant partneriaethau hen a newydd (3.2.4.). Bydd hyn yn adeiladu ar sail ein cynllun partneriaeth hynod lwyddiannus i gynnig gwell mynediad i'n casgliadau drwy ddatblygu arddangosfeydd lleol sy'n defnyddio rhannau o'n casgliadau cenedlaethol.

Byddwn hefyd yn gweithio ar fentrau marchnata a chyfryngau ar y cyd i hyrwyddo Caerdydd a Chymru fel cyrchfannau diwylliannol gydag aelodau *Cymru'n Creu* a phrojectau fel y *Venice Biennale*, gwobr *Artes Mundi* a chanmlwyddiant Caerdydd fel dinas a'i hanner canmlwyddiant fel prifddinas yn 2005.

**3.1.5 gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'n cyfraniad at nod Llywodraeth y Cynulliad i greu Cymru gynaliadwy.**

Bydd datblygiadau fel *Gwyddoniadur Cymru* (a'r rhaglen addysg gysylltiedig) yn rhoi cyfle i ni godi ymwybyddiaeth am ein gwaith ym meysydd daeareg, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd.

**3.1.6 gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'n cyfraniad at nod Llywodraeth y Cynulliad o greu Dyfodol Dwyieithog i Gymru.**

Drwy weithredu strategaeth sgiliau cyfathrebu, byddwn ni'n sicrhau ein bod yn cael ein gweld fel canolfan rhagoriaeth o ran cynnig gwasanaethau dwyieithog. Yn benodol, byddwn ni'n cynnig gweithgareddau i ategu'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd y 2004 drwy ALIR.

Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r oriel *Cyflwyniad i Gymru* arfaethedig yn AWC fel cam cyntaf yn ein hymgais i sefydlu AWC fel Canolfan Ddehongli ar gyfer Cymru. Os gwireddir hyn, byddai hon yn ganolfan addysgol a fyddai'n cynnig adnoddau a chyfleusterau hanesyddol a chyfoes i helpu i greu goddefgarwch a pharch rhwng pobl, a dathliad o wahanol hunaniaethau a thraddodiadau ieithyddol Cymru – ymhlith dinasyddion Cymru a thwristiaid fel ei gilydd.

Byddai datblygu oriel *Cyflwyniad i Gymru* fel project partneriaeth mwy uchelgeisiol o lawer yn helpu aelodau *Cymru'n Creu* (a chyrff na noddir gan y Cynulliad, fel S4C a'r BBC) i gyflawni'r hyn mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddisgwyl ganddynt. Byddem yn gallu dangos fod gan AWC ran ganolog i'w chwarae wrth greu ymdeimlad aeddfed o ddinasyddiaeth Gymreig a phoblogaeth sy'n gyffyrddus ag ethos dwyieithrwydd ac sy'n ymfalchïo yn amrywiaeth ein treftadaeth a'n traddodiadau.

**3.1.7 defnyddio creu AGG, datblygiad CGMG a'n Canmlwyddiant yn 2007 i wneud datganiad cyhoeddus pendant am ein swyddogaeth yn yr 21ain ganrif.**

Defnyddir dyfodiad AGG yn 2005 i godi ymwybyddiaeth am y cydbwysedd rhwng AOCC fel brand 'rhiant' corfforaethol a brandio safleoedd eraill AOCC fel 'teulu' o amgueddfeydd ac orielau sy'n croesawu ymwelwyr.

Defnyddir datblygiad CGMG (3.3.3) i gadarnhau ein swyddogaeth ganolog fel sefydliad sy'n cynnig arweiniad i holl sector amgueddfeydd yng Nghymru yn gyffredinol.

Defnyddir Canmlwyddiant sefydlu'r Amgueddfa yn 2007 i ddathlu delfrydau'r 19eg ganrif yng nghyd-destunein gweledigaeth ar gyfer yr 21ain ganrif (3.2.7.1).

### 3.1.8 manteisio ar y cwmpas ar gyfer dysgu cynhwysol am fywyd naturiol a diwylliannol Cymru a gynigir drwy gyfryngau electronig a digidol.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi adnoddau mewn sicrhau bod y data am ein casgliadau ar gael i bawb drwy gyfryngau digidol, gan gynnwys y rhyngrwyd, gan gefnogi Grid Dysgu Cenedlaethol Cymru a chynlluniau mynediad eraill TGCh. Ein gobaith yw y bydd rhith-fynediad i wrthrychau a gwybodaeth yn ysbrydoli unigolion yng Nghymru a thros Glawdd Offa i ymweld â'n holl amgueddfeydd. Gwir bwrpas amgueddfa yw cynnig mynediad materol i wybodaeth; a thrwy dechnolegau digidol gall pobl elwa ar wybodaeth arbenigol ein staff yn ogystal â'r casgliadau, ni waeth ble yn y byd y maent yn byw.

Byddwn yn parhau i **ddigideiddio ein casgliadau a'r wybodaeth sydd gennym amdanynt** er mwyn sicrhau bod mwy a mwy o wybodaeth ddiwylliannol a ieithyddol am Gymru ar gael yn electronig. Yn ogystal â hyn, byddwn yn datblygu adnoddau gwybodaeth a fydd yn cyd-fynd â chasgliadau cyrff treftadaeth eraill. Byddwn yn trafod faint y cwmpas sydd ar gael ar gyfer cydweithio â chyrff treftadaeth a diwylliannol eraill gyda'r nod o sefydlu fformat cyffredin a fydd yn ei gwneud hi'n haws i rith-ymwelwyr gael gafael ar wybodaeth, o bob math o ffynonellau. Byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiad i'r project cenedlaethol, *Casglu'r Gemau*, y mae'r Llyfrgell Genedlaethol a ninnau yn brif bartneriaid ynddo. Byddwn hefyd yn ceisio gosod mwy o'n data ar System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS) er mwyn i'r cyhoedd holi am wybodaeth yngl_n â'u milltir sgwâr eu hunain, fel y byddant hefyd yn gallu gwneud gyda data ein partneriaid.

Byddwn yn mynd ati o ddifrif i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd a gynigir gan ddyfodiad rhwydwaith TG newydd cyflym Llywodraeth y Cynulliad – *Cymru ar Lein* – ac yn ceisio ei ddefnyddio i sefydlu a gwella gwasanaethau ar gyfer ymwelwyr a defnyddwyr a lle bo'n briodol, i feithrin cysylltiadau rhwng ein hamgueddfeydd, pan fo hynny'n briodol.

### 3.1.9 parhau i wella mynediad i'n hamgueddfeydd.

Ni chafodd amgueddfeydd Edwardaidd a safleoedd diwydiannol eu hadeiladu gyda darparu mynediad llawn i'r cyhoedd mewn golwg. Tra bod eu pwysigrwydd pensaernïol neilltuol yn golygu na ellir mo'u newid yn sylfaenol, byddwn yn parhau i'w gwneud yn fwy hygyrch. Erbyn 2005, byddwn wedi gwneud ein hamgueddfeydd yn fwy croesawgar ac ystyrlon i bobl â nam ar eu golwg neu eu clyw, sy'n methu â cherdded, neu sydd ag anawsterau dysgu, er mwyn gwireddu ein dyheadau ninnau yn ogystal â Llywodraeth y Cynulliad am wneud adeiladau yn fwy hygyrch i bawb. Er enghraifft, yn AOG, byddwn yn:

- cwblhau'r rhaglen o godi arwyddion newydd
- cychwyn teithiau sain a fydd yn addas ar gyfer pob ymwelydd, gan gynnwys rhai â nam ar eu golwg; a
- cwblhau gwaith ar y brif fynedfa er mwyn cydbwyso gofynion y bobl hynny rhai sydd ag angen mynediad gwastad â'r angen am barchu'r talwyneb Gradd I a dyluniad yr adeilad.

Bydd effaith y gwelliannau hyn yn gyfyngedig oni bai ein bod ni mewn sefyllfa i gynnal-a-chadw ein hadeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn para i fod yn hygyrch yn y tymor hir (Adran 6 – Blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Ychwanegol).

## MATER STRATEGOL 2 – Rhaid i ni barhau i wneud ein casgliadau a'u gwybodaeth gynhenid yn hygyrch i gynulleidfa ehangach fyth

## AMCANION CRAIDD

Byddwn yn:

### 3.2.1 cynnig mynediad ystyrlon i'r wybodaeth sydd yn ein hamgueddfeydd a'u hamryfal gasgliadau.

Mae natur aml-ddisgyblaeth ein casgliadau, ynghyd â'u gwahanol leoliadau daearyddol, yn apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, grwpiau oedran a diddordebau mewn nifer o wahanol ddalgylchoedd.Yn ystod oes y Cynllun hwn, byddwn yn cynnwys datblygiadau newydd cyffrous yn Abertawe yn ogystal â gwella ein hamgueddfeydd cyfoes. Bydd cynllunio tymor-hwy ar gyfer parhau i ddatblygu AOG ac AWC yn nodwedd gynyddol bwysig o'n gwaith. Bydd datblygiadau o'r fath yn rhoi'r sylw haeddiannol i strategaeth ddiwylliant Llywodraeth y Cynulliad sef *Cymru Greadigo*l.

### 3.2.2 gwneud ein hamgueddfeydd, ein casgliadau a'n gwaith yn hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosib.

Un o brif amcanion y Cynllun hwn yw gwneud ein casgliadau llawer yn fwy adnabyddus a meithrin gwell dealltwriaeth ohonynt. Credwn fod rhaglenni cyfnewidiol o ddigwyddiadau yn ein holl amgueddfeydd yn hanfodol o safbwynt sicrhau bod pobl yn dod yn ôl ac ennyn mwy fyth o ddiddordeb ymhlith ein hymwelwyr teyrngar mewn dalgylchoedd preswyl cymharol fach. Mae newid ard-dangosiadau o'n casgliadau a benthyg eitemau i  ganolfannau eraill yng Nghymru yn gyfle i ailddehongli ein casgliadau a chodi ein proffil, cynnal cynulleidfaoedd presennol a chreu rhai newydd.

Yn ystod oes y Cynllun hwn, byddwn yn edrych ar ffyrdd pellach o ehangu a chynyddu mynediad i dreftadaeth a diwylliant Cymru drwy sicrhau bod y nifer fwyaf bosibl o ymwelwyr yn dod i'n hamgueddfeydd bob mis o'r flwyddyn. Byddwn yn gweithio hefyd gydag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd newydd yn gallu manteisio ar y casgliadau cenedlaethol a defnyddio ein gwasanaethau mewn canolfannau eraill ac mewn ffyrdd eraill

### 3.2.3 defnyddio ein casgliadau amrywiol fel sail i waith ymchwil ysgolheigaidd.

Mae ein cymheiriaid ym mhedwar ban byd yn cydnabod ansawdd ein casgliadau a'r gwaith ymchwil sy'n cyd-fynd â nhw. Mae gwaith ymchwil wrth graidd gorchwylion sylfaenol amgueddfa, sef caffael deunyddiau newydd, darganfod beth ydyn nhw, eu dogfennu, gofalu amdanynt a'u cyflwyno drwy gyhoeddiadau ac arddangosfeydd. Mae cyhoeddiadau, mewn ffurf brintiedig neu, yn gynyddol, ar ffurf electronig, yn arfau ar gyfer gwaith ymchwil pellach ac ysgolheictod sy'n creu dealltwriaeth newydd o Gymru a'r byd.

Byddwn yn parhau i weithio ar nifer sylweddol o brojectau ymchwil rhyngwladol ac ar y cyd i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth, ac yn parhau â'n gwaith sy'n cynghori ac yn cefnogi gwaith Llywodraeth y Cynulliad, ein partneriaid ac asiantaethau eraill ym mhedwar ban y byd. Bydd cydnabyddiaeth fyd-eang i'n cyfraniad at waith ymchwil yn ein helpu i barhau i estyn allan at gynulleidfa ryngwladol.

Byddwn yn ceisio meithrin barn gyhoeddus ffafriol ynglŷn â'n gwaith, ein blaenoriaethau a'n delwedd yng Nghymru a'r tu hwnt drwy roi mwy o bwyslais ar hyrwyddo ein casgliadau yn y cyfryngau poblogaidd a phroffesiynol. Bydd Strategaeth y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus yn ceisio creu delwedd ohonom fel arweinwyr y farchnad yn ein maes arbenigol ein hunain ac yn ennill plwyf i'n ein safleoedd, ein disgyblaethau a'n hadrannau fel canolfannau rhagoriaeth ymhlith grwpiau cymheiriaid.

Rydym eisoes yn cael ein cydnabod yn eang fel sefydliad gwyddonol blaenllaw mewn cyd-destun rhyngwladol; fodd bynnag, mae'r arbenigaeth hon yr un mor berthnasol yng Nghymru, am fod gennym lawer i'w gyfrannu at y drafodaeth ehangach am allbwn gwyddonol y genedl. Byddwn felly yn ystyried ffyrdd o wireddu hyn.

| Dangosydd Perfformiad | 2001 - 02 canlyniad | 2002 - 03 canlyniad | 2003 - 04 targed | 2004 - 05 targed | 2005 - 06 targed | 2006 - 07 targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymholiadau am gasgliadau | 17,594 | 23,334 | 20,000 | *21,000* | *22,000* | *23,000* |
| Nifer y projectau ymchwil | Dangosydd newydd 2002/03 | 63 | 65 | *75* | *80* | *80* |
| Nifer yn bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle e.e. darlithoedd | 122,315[a] | 153,184 | 154,000 | *155,000* | *160,000* | *160,000* |
| Nifer y canolfannau y benthycwyd gwaith iddynt | 272 | 355 | 310 | 315 | 350 | 350 |
| % o'r amser y mae AOCC ar agor | 50.1%[b] | 45.9%[b,c] | 76%[c] | *90.1%*[d] | *91.5%* | *91.5%* |

[a] cyfanswm yn adlewyrchu canslo'r Sioe Frenhinol ac Eisteddfod yr Urdd oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau
[b] 100% = 12awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn
[c] ADGC ar gau ar gyfer gwaith ailddatblygu
[d] 100% = 7 awr y dydd, 362 diwrnod y flwyddyn

## AMCANION AR GYFER NEWID

Byddwn yn:

### 3.2. 4. datblygu ein Rhaglen Partneriaethau ymhellach.

Rydym wedi mynd ati ag egni newydd yn ddiweddar i ddatblygu a hyrwyddo ein gwaith partneriaeth ag amgueddfeydd eraill ledled Cymru. Yn ystod 2002-03, ategwyd amrywiaeth eang ein gwaith wrth fenthyca arddangosion a darparu gwybodaeth arbenigol gan greu *Cyfoeth Cymru Gyfan - Sharing Treasures*. Hwylusodd y cynllun hwn, a gafodd gyllid Llywodraeth y Cynulliad drwy law Cyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru (CMW), ddatblygiad tri phroject peilot gydag amgueddfeydd lleol yn Wrecsam, Ynys Môn a Phowys. Mae'r gwaith yma wedi dangos yn glir bod datblygiad y cynllun yn cynnig cyfleoedd helaeth. Ond yn ogystal, dangoswyd effaith bosibl y cynllun ar bartneriaid llai sydd weithiau heb yr adnoddau, o ran amser staff, i allu cyflawni eu rhan o fewn y trefniadau. Yn 2003-04, bydd y cynlluniau peilot hyn yn parhau o fewn ein hadnoddau presennol, ond hoffem fanteisio ar y posibiliadau hyn drwy atgyfnerthu ac ehangu'r cynllun. Byddwn yn dechrau gwaith i gynyddu nifer y canolfannau, ac i hyrwyddo'r rhaglen ehangach o fenthyciadau ail-reng a ragwelwyd adeg cyflwyno'r cynllun (3.1.4).

Rhaid i ni fwrw ymlaen â'r datblygiadau cyffrous a phwysig hyn mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod Cymru'n aros yn ymwybodol o weithgarwch mewn rhannau eraill o'r DU ac Ewrop lle mae mentrau diweddar yn cynnig posibiliadau enfawr; rydym yn gweithio i sicrhau y gallwn elwa ar gyfleoedd priodol. Yn yr un modd, rhaid i ni rannu enghreifftiau o arferion da yng Nghymru, ac adeiladu ar enghreifftiau o arfer dda mewn mannau eraill.

**Bydd ein Rhaglen Bartneriaeth yn:**

3.2.4.1 cwblhau, gwerthuso ac adolygu tri chynllun peilot a ddatblygwyd yn rhan o *Gyfoeth Cymru Gyfan - Sharing Treasures* yn Oriel Ynys Môn, Amgueddfa Wrecsam, ac Amgueddfa Sir Frycheiniog

3.2.4.2 ar y cyd â Chyngor y Celfyddydau, datblygu gwaith cyfatebol gyda thair i bump o ganolfannau yng Nghymru, gan gynnwys Oriel Mostyn, Llandudno, Oriel Davies, y Drenewydd, a Chanolfan Grefftau Rhuthun, er mwyn creu *partneriaid oriel genedlaethol* ym maes y celfyddydau gweledol

3.2.4.3 rhoi mentrau datblygu cynulleidfaoedd ar waith, gan gynnwys gwaith addysg allestyn a fydd yn darparu mwy o gyfleoedd dysgu i grwpiau a dangynrychiolir ymhlith ein hymwelwyr a grwpiau sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol.

Gwneir cais am adnoddau ychwanegol i sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn gallu parhau a bodloni disgwyliadau darpar-bartneriaid yn Adran 6. Bydd y cyllid hwn yn ddefnyddiol dros ben wrth lenwi bylchau yn adnoddau ein canolfannau partner. Mae'r cynnig hwn yn cydredeg â cheisiadau gan ein partneriaid mewn cyrff eraill fel Cyngor y Celfyddydau fel y gallant elwa ar y posibiliadau yr ydym yn eu cynnig.

3.2.4.4 integreiddio'r dulliau partneriaeth newydd at reoli canolfannau llai sy'n gysylltiedig â ni, fel TT ac ARS, i'n gweithgareddau

3.2.4.5 parhau i weithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP) i fwrw ymlaen â'r gwaith o greu *Canolfan Sutherland ar gyfer celf a'r amgylchedd* yn Nhyddewi. Rhagwelir y bydd disgwyl i'r holl bartneriaid wneud ymrwymiad ariannol at y project hwn wrth iddo ddatblygu; bydd y project felly'n flaenoriaeth ar gyfer cyllid pellach mewn Cynlluniau Corfforaethol yn y dyfodol

3.2.4.6 cynorthwyo Cyngor Caerdydd i gyflawni ei gynlluniau ar gyfer rhaglen o ddigwyddiadau i ddathlu canmlwyddiant Caerdydd fel dinas a'i hanner-canmlwyddiant fel prifddinas yn 2005, gan gynnwys cyfrannu at y rhaglen o gelf weledol yn y *Depot*

3.2.4.7 archwilio sut gallai datblygu CGMG ategu gwaith partneriaeth a rhannu'r casgliadau, gan gynnwys dewisiadau ar gyfer creu system rheoli gydlynol ar gyfer ein gwaith partneriaeth.

Caiff effaith y Rhaglen Bartneriaeth ei hadlewyrchu drwy gynnydd yn nifer y canolfannau y benthycir gweithiau iddynt a'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle sy'n cynnwys ymweliadau ag arddangosfeydd teithiol.

### 3.2.5 gorffen y gwaith o roi ein Strategaeth ar gyfer Diwydiant ar waith drwy agor Amgueddfa Genedlaethol newydd y Glannau yn Abertawe yn 2005

Bydd yr Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (AGG) yn Abertawe yn cymryd lle Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru (ADMC) ac Amgueddfa Diwydiant a Môr Abertawe (ADMA) a bydd yn gweithredu fel mynegbost i safleoedd diwydiannol eraill AOCC a safleoedd perthnasol a gynhelir gan gyrff eraill, yn ogystal â bod yn amgueddfa bwysig ac arloesol. Mae AGG yn cael ei datblygu ar y cyd â Dinas Sir Abertawe, ail ddinas Cymru ac un o grudleoedd y Chwyldro Diwydiannol. Yr unig gyllid na sicrhawyd eto ar gyfer y project cyfalaf £30m yw'r £4.4 miliwn y bydd rhaid ei godi'n breifat.

Bydd agor yr amgueddfa hon yn 2005-06 yn cau pen y mwdwl ar ein *Strategaeth ar gyfer Diwydiant,* a luniwyd ym 1998, ar sail ymatebion i'n dogfen ymgynghori gyhoeddus, *Cymru – Y Genedl Ddiwydiannol Gyntaf*. Mae llwyddiant y cynlluniau ailddatblygu a gododd o'r strategaeth wedi cael ei gydnabod eisoes gyda dwy amgueddfa – PM ac ALC – sydd wedi cael eu dynodi'n angorbwyntiau Cymreig ar Lwybr Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf y Cynllun hwn gwelir trawsnewid o ddatblygu project cyfalaf mawr i agor a gweithredu amgueddfa AOCC newydd, gyda'r holl faterion cysylltiedig fel staffio, marchnata, rhaglennu, a chynnal-a-chadw amgueddfa o'r fath yn gyffredinol.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu £500,000 y flwyddyn o'n hadnoddau presennol i gynnal costau refeniw blynyddol gweithrediad yr AGG. Mae dau fater yn ymwneud â chyllido yn codi o'r cynllun busnes, ac fe'u cynhwysir yn ein blaenoriaethau ar gyfer cyllid ychwanegol (Adran 6):

A. nid oes ffynhonnell incwm wedi ei ddynodi ar gyfer costau cyn-agor yn 2004-05, fel penodi Ceidwad a staff eraill

B. seiliwyd y cynllun busnes gwreiddiol ar y rhagdybiaeth y byddai'r AGG yn talu ei chostau ei hun pe bai'n codi tâl mynediad yn ôl pris y farchnad. Mae fersiwn diwygiedig o'r cynllun busnes, sy'n adlewyrchu'r newid yn ein polisi tâl mynediad, yn nodi bod cost o £500,000 y flwyddyn ar gyfer mynediad am ddim, ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dynodi ei bod yn fodlon talu'r costau hynny.

**3.2.6 gwneud mwy i addysgu'r cyhoedd yng Nghymru yn well yngl_n â materion amgylcheddol, yn ogystal â chywreinio ein data ymchwil unigryw a sicrhau bod mwy ohono ar gael.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn pwysleisio'i hymrwymiad i ddatblygu economi gynaliadwy i Gymru, gydag agenda sy'n cynnwys amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol i bawb. Mae'r rhain yn amrywio o fioamrywiaeth, llygredd, rheoli gwastraff, adfywio trefol a gwledig ac adnoddau adnewyddadwy, i arferion amaeth, pysgota ac effeithiau prosesau diwydiannol. Credwn fod ran bwysig gennym i'w chwarae wrth ddatblygu'r agenda hon.

Yn 2001-02 a 2002-03 bu i ni lunio ein strategaeth ein hunain ar gyfer codi ymwybyddiaeth amgylcheddol, ac asesu sut y gallai gyfrannu at gynaliadwyedd yng Nghymru, sef defnyddio adnoddau adnewyddadwy mewn ffordd effeithlon, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar iechyd tymor-hir yr amgylchedd. Drwy ein casgliadau, medrau arbenigol ein gwyddonwyr a chynnyrch eu gwaith ymchwil, rydym mewn safle da i fod yn un o brif ddarparwyr data a all hwyluso'r broses benderfynu. Mewn partneriaeth â chyrff ac asiantaethau eraill, fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ardd Fotaneg Genedlaethol, gall ein curaduron a'n staff addysg chwarae rhan bwysig wrth addysgu'r cyhoedd am y materion mwyfwy perthnasol hyn.

Yn ystod oes y Cynllun hwn byddwn yn llunio Cynllun Gweithredu a fydd yn nodi'r meysydd hynny lle gallwn wneud cyfraniad pwysig fel darparwyr gwybodaeth allweddol am fioamrywiaeth ar gyfer pobl Cymru. Credwn y gallwn ryddhau'r wybodaeth yn ein casgliadau i'r cyhoedd, a chreu sail o wybodaeth a fyddai o werth unigryw wrth lunio polisïau. Rydym ymhlith prif ganolfannau gwybodaeth arbenigol Cymru mewn tacsonomeg (sef yr wyddor o adnabod ac enwi rhywogaethau) a gallwn gynnig hyfforddiant i feithrin medrau yn y maes hwn, yn ogystal â chefnogi cynlluniau fel y Cyfleuster Gwybodaeth Fyd-eang am Fioamrywiaeth a'r Fenter Tacsonomeg Byd-eang. Byddwn yn ceisio datblygu'r Amgueddfa i fod yn ganolfan ragoriaeth mewn rhai o'r meysydd hyn; o ganlyniad, bydd y cynllun hwn yn un o'r blaenoriaethau ar gyfer cyllid ychwanegol yng Nghynlluniau Corfforaethol y dyfodol.

**3.2.7 gwella AOG ac AWC, ein hamgueddfeydd hynaf, mwyaf, a mwyaf poblogaidd, yn y tymor byr ac, yn bwyllog a chan ymgynghori, gweithredu'r Prif Gynllun tymor-hir sydd wedi bod yn datblygu ers 2001-02.**

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein prif gynlluniau ar gyfer AOG ac AWC, gan ystyried:

- y gwaith fydd angen ei wneud er mwyn gweithredu'r argymhellion allweddol a gododd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar arddangos celf a gwblhawyd yn 2000-01, ac yn enwedig bwrw ymlaen ag asesiadau o'r opsiynau ac astudiaethau ymarferoldeb o hyd a lled, lleoliad, a goblygiadau cyfalaf a refeniw oriel genedlaethol â diffiniad clir, a datblygu '*partneriaid oriel genedlaethol*' ym maes y celfyddydau gweledol (3.2.4.2)
- effaith datblygu oriel *Cyflwyniad i Gymru* yn AWC, a fydd yn cynnwys elfennau o hanes ac archaeoleg gyda'i gilydd mewn cyfuniad newydd
- yr angen am fynd i'r afael â datblygiadau newydd yn y modd y cyflwynir y gwyddorau naturiol; a
- gwneud defnydd mwy effeithiol o'r lle a ddefnyddir i storio ar hyn o bryd ar ôl symud elfennau o'r casgliad i'r CGMG (3.3.3).

### 3.2.7.1 Yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd:

**Yn y tymor byr**, byddwn yn cyflwyno moratoriwwm ar arddangosfeydd mawr dros dro er mwyn ein galluogi ni i fuddsoddi mewn gwaith i adnewyddu ein arddangosfeydd parhaol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau â'n rhaglen o arddangosfeydd graddfa-fach ynghyd â digwyddiadau ac adnoddau addysgol.

Byddwn yn rhoi cynllun ar waith i adnewyddu ein harddangosiadau hanes natur, gan roi pwyslais newydd ar bwysigrwydd cynyddol dyfodol cynaliadwy. Byddwn yn cyflwyno cais ger bron Cronfa Re:discover (ymddiriedolaeth Wellcome/y Mileniwm), i gyd-fynd â'r cyllid a ryddheir gan y moratoriwm o arddangosfeydd, gyda'r nod o alluogi'r cyhoedd yn ogystal ag ymchwilwyr i wneud mwy o ddefnydd o'n casgliadau, a chreu canolfan lle gall y cyhoedd ddod i ddeall yr amgylchedd naturiol. Fe'n cydnabyddir yn eang fel canolfan ragoriaeth bioamrywiaeth morol, er enghraifft, ac am fod cyfran fwy o arfordir Cymru dan warchodaeth nag unrhyw wlad Ewropeaidd arall, credwn y gallwn gyfrannu at godi ymwybyddiaeth a chreu gwell dealltwriaeth yn y maes cynyddol bwysig hwn. Os na fydd ein cais i Gronfa Re:discover yn llwyddiannus bydd rhaid i ni ailystyried y ceisiadau am adnoddau ychwanegol fel y maent yn effeithio ar adnewyddu'r orielau er mwyn ystyried sut y gellir mynd ati i ailwampio'r orielau gwyddoniaeth.

Byddwn hefyd yn dechrau ailwampio'r orielau archaeoleg yn yr adain orllewinol uchaf, gan ddechrau drwy ddarparu arddangosiad arbrofol newydd yn dangos gwaith diweddar mewn ymchwil archaeolegol a chadwraeth. Byddwn yn buddsoddi hefyd mewn adnewyddu'r deunyddiau clyweledol yn oriel *Esblygiad Cymru*.

**Yn y tymor canolig**, byddwn yn cyfrannu at gynllunio arddangosfeydd dros-dro mawr i ailddechrau yn 2007, sef blwyddyn ein canmlwyddiant.

### 3.2.7.2 Yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan:

Roeddem wrth ein bodd fod AWC wedi ennill Gwobr *'WOW Factor'* Cymru 2002 BCC ar gyfer y profiad ymwelwyr gorau. Ond mae hynny'n tanlinellu'r angen am ymateb i sawl her bresennol a rhai newydd, gan gynnwys rhai a achoswyd gan y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Mae'n hanfodol parhau i fuddsoddi yn yr amgueddfa er mwyn iddi allu parhau fel atyniad treftadaeth pennaf Cymru. Rhoddir blaenoriaeth i:

- gwblhau a gweithredu cynlluniau ar gyfer ailwampio'r *Oriel Diwylliant Materol* bresennol a'i throi'n oriel *Cyflwyniad i Gymru* a fydd yn rhoi gwell syniad i'r ymwel wyr o gyfeiriad cyffredinol yr amgueddfa ac yn darparu cyflwyniad cyffredinol i hanes a diwylliant Cymru (3.1.6). Dangosir y costau cyfalaf ar gyfer y project hwn, a gynhwysir fel blaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad yn ein llythyr gorchwyl, yn Adran 6 – Blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Ychwanegol.
- parhau â'r rhaglen o ailgodi adeiladau hanesyddol, gan gynnwys cwblhau Eglwys ganoloesol Llandeilo Tal-y-bont; ailgodi Tŷ Masnachwr canoloesol o Hwlffordd; a Gorsaf Heddlu Ffynnon Taf;
- parhau â rhaglen barhaus o ailwampio arddangosiadau yn yr adeiladau presennol yn unol â'r cynlluniau sy'n bodoli eisoes; a;
- buddsoddi er mwyn sicrhau y gallwn ymdopi â'r nifer gynyddol o ymwelwyr

Ochr yn ochr â hyn byddwn yn parhau i gynnal-a-chadw'r casgliad presennol o adeiladau hanesyddol a gweithredu rhaglen gyson o loywi cynnyrch ac adnewyddu ar raddfa fach.

# MATER STRATEGOL 3 - Rhaid i ni sicrhau ein bod yn gallu gofalu'n iawn am y casgliadau a'r ystadau a ymddiriedwyd i'n gofal.

## AMCANION CRAIDD

Byddwn yn:

**3.3.1 ymchwilio, dethol a chaffael sbesimenau ac arteffactau sy'n sicrhau ein bod yn adeiladu ac yn datblygu casgliadau'r genedl yn unol â'n Siarter ac mewn ffordd gynaliadwy o fewn ein hadnoddau presennol.**

Rheolir ein gweithgareddau caffael gan bolisïau y cytunwyd arnynt gan ein Cyngor ac a luniwyd gyda chyngor ac arweiniad arbenigwyr yn y meysydd perthnasol. Mae rhywfaint o'r casglu yn weithredol, o'r safbwynt ein bod yn mynd ati i chwilio am wrthrych penodedig er mwyn ei arddangos neu ymchwilio iddo, a gellir gwneud hynny drwy gasglu yn y maes, neu drwy brynu. Gellir caffael gwrthrychau neu gasgliadau eraill ar ffurf rhoddion neu gymynroddion. At hynny, byddwn yn prynu eitemau ar ôl ymgynghori â sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru a gwledydd eraill, fel y Llyfrgell Genedlaethol ac Oriel Bortreadau Genedlaethol Lloegr, er mwyn diogelu treftadaeth Cymru yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

Yn ystod oes y Cynllun hwn, rhoddir ystyriaeth i newid ffocws rhywfaint o'n gweithgarwch caffael er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu cefnogi prynu gweithiau celf yr 20fed ganrif.

Byddwn yn aml yn defnyddio ein Grant Prynu Sbesimenau (GPS), rhan o'n cymhorthdal, fel cyllid cyfatebol i ddenu arian o ffynonellau eraill; rydym wedi ei chynyddu â grantiau allanol o bron 100% yn y tair blynedd diwethaf. Golygodd hynny y gallwyd prynu mwy o weithiau pwysig i'r casgliad na thrwy ddefnyddio'r grant yn unig. Er mwyn gallu bodloni galw ymwelwyr newydd am straeon am Gymru, mae angen ehangu'r casgliad mewn sawl maes; gan hynny, mae'n hanfodol adfer lefel y GPS.

**3.3.2 gwella safonau ein stiwardiaeth er mwyn gofalu am gasgliadau hen a newydd, eu dogfennu, a'u diogelu mewn ffordd sy'n gweddu i amgueddfa genedlaethol yn yr 21ain ganrif.**

Fel pob amgueddfa fawr, rhaid i ni ofalu am gyflwr ein casgliadau, drwy storio priodol, a chynnal lefel o ddogfennaeth amdanynt er mwyn iddynt fod yn gwbl ddealladwy i genedlaethau'r dyfodol. Mae gofalu am ein casgliadau a'u datblygu hwy a'r wybodaeth sy'n gynhenid ynddynt wrth wraidd popeth a wnawn ni. Cesglir llawer o wrthrychau'r amgueddfa oherwydd gwerth cynhenid y wybodaeth sydd ynghlwm wrthynt, yn hytrach nag i'w harddangos i'r cyhoedd. Oherwydd oedran ein casgliadau, nid oes gennym wybodaeth sylfaenol am lawer ohonynt, sy'n golygu nad oes modd i ni eu dogfennu'n llawn na chael gafael ar wybodaeth amdanynt yn rhwydd er mwyn manteisio ar yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â hwy at ddibenion addysgol ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, rydym yn clustnodi 24% o gyfanswm ein hadnoddau i weithgareddau casglu a chadwraeth, ond mae'r galwadau croes ar amser ein staff yn golygu fod llwyth o waith curadu hanfodol wedi cronni, a rhaid clirio hyn cyn y gallwn lwyddo i gynnig gwell mynediad i'n casgliadau. Mae'r Amgueddfa wedi cynnig cynllun strategol treigl dros bum-mlynedd i leihau'r ôl-groniad hwn; rydym yn ddiweddar wedi gweithredu strategaeth ddiogelu ar gyfer yr adeiladau hanesyddol sydd wedi eu hailgodi yn AWC a fydd yn eu diogelu hwy ac yn sicrhau eu bod yn dal i gynnig mynediad diogel i'n holl ymwelwyr. Yn ystod oes y Cynllun hwn, byddwn yn adeiladu ar y sail hon, gan geisio dargyfeirio adnoddau i gynnal mwy o weithgarwch yn y maes hanfodol hwn, lle bynnag y bo modd. Rhan hanfodol o hynny yw parhau i ddiweddaru'r ddogfennaeth sydd gennym am wrthrychau yn ein casgliadau, a'i rhoi ar gyfrifiadur. Mae'r targedau ar gyfer % y casgliadau a gofnodir ar gyfrifiadur at ddibenion rheolaeth y rhestrau eiddo, a'r % o'r casgliadau sydd wedi eu catalogio yn adlewyrchu'r lefel o adnoddau y rhagwelwn y byddant ar gael ar gyfer y gwaith hwn yn ystod y tair blynedd nesaf.

Rhaid gwario'n gyson ar gynnal ffabrig adeiladau hanesyddol bwysig AOCC sy'n gwarchod ac yn arddangos y casgliadau a gartrefir ynddynt. Fel a nodwyd eisoes, mae traul wedi cynyddu'n ddramatig ers cyflwyno mynediad am ddim. Mae angen dod o hyd i adnoddau ychwanegol er mwyn i ni sicrhau bod ein hamgueddfeydd yn hygyrch a'u bod yn cael eu cynnal mewn cyflwr derbyniol (Adran 6 - Blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Ychwanegol).

| Dangosydd Perfformiad | 2000 -02 canlyniad | 2002-03 canlyniad | 2003-04 targed | 2004-05 targed | 2005-06 targed | 2006-07 targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % y casgliadau â rheolaeth rhestr eiddo ar gyfrifiadur[a,b] | 30.9% | 33.4% | 36% | 39% | 42% | 45% |
| % of collections catalogued[a,c] | 16.9% | 17% | 20.4% | 20.7% | 21.0% | 21.3%% |
| of space meeting appropriate % o'r lle sy'n bodloni'r safonau priodol o ran storio casgliadau | 57% | 57% | 57% | 57% | 57% | 90%[d] |

[a] cronedig
[b] ar sail casgliad 4,700,000 eitem. Mae cofnodion y rhestr eiddo yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol sy'n golygu y gellir darganfod
[a] lleoli, e.e. rhif cofrestru; teitl neu enw'r gwrthrych; statws – benthyciad, prynu, rhodd, ayb.
[c] ar sail maint casgliad 4,700,000 eitem. Bydd gan gofnodion lefel catalog yr un wybodaeth â'r rhestr eiddo, ond bydd hefyd yn cynnwys data academaidd, fel cyfeiriadau at gyhoeddiadau
[d] bydd y targed hwn yn cynyddu i ryw 90% a bwrw fod y CGMG yn cael ei datblygu yn Nantgarw (gweler 3.3.3).

## AMCANION AR GYFER NEWID

Byddwn yn:

**3.3.3 gwella'r dulliau storio fel sylfaen hollbwysig ar gyfer gwella mynediad drwy ddatblygu'r Ganolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol (CGMG) yn Nantgarw.**

Rydym yn cadw ryw 4.7 miliwn o eitemau a lotiau yn ein casgliadau eang eu cwmpas ar ran pobl Cymru. Nid yw'r mwyafrif helaeth o'r eitemau hyn yn cael eu harddangos, ond y casgliadau cadw, neu gasgliadau ymchwil, hyn yw'r archif tri-dimensiwn genedlaethol sy'n cofnodi gorffennol a phresennol Cymru a'i lle yn y byd. Un o'n prif nodau polisi yn ystod oes y Cynllun hwn yw cynnig mwy o fynediad i'r deunydd hwn, boed ar ein safleoedd ein hunain, mewn partneriaeth ag eraill, neu drwy gyhoeddi a digideiddio.

Fel eiddo pob prif amgueddfa yn y DU, mae ein casgliadau wedi dioddef oherwydd storio gwael, er ein bod wedi gwario rhyw £8m ar wella gofodau mannau ac ati ers 1987. Drwy sefydlu'r Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw ym 1998 cynyddwyd y gyfran o le storio sydd o ansawdd da iawn o 5% o'r lle i 33%, ond serch hynny, mae dros 40% yn dal i fod yn wael neu'n wael iawn, sy'n cymharu'n wael ag amgueddfeydd cenedlaethol eraill. Mae storio gwael yn golygu fod eitemau'n dirywio'n gynt, ac yn golygu ei bod yn amhosibl i'r cyhoedd eu defnyddio.

Diolch i grant gwerth £3.5m o gyllid datblygu cyfalaf oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, rydym yn gallu bwrw ymlaen â'n cynlluniau i ddatblygu'r Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw i fod yn Ganolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol (CGMG). Ar ôl cwblhau'r gwaith, yn ogystal â chynnig gwell amodau materol ac amgylcheddol ar gyfer y casgliadau sydd wedi eu storio o dan amodau gwael ar hyn o bryd, a chynyddu'r canran o'r lle sy'n bodloni'r safonau arddangos/storio priodol i 90%, bydd yn:

- hwyluso gwell mynediad i'r casgliadau i'r cyhoedd drwy ryddhau lle yn yr orielau arddangos sy'n cael eu defnyddio at ddibenion storio ar hyn o bryd, i arddangos casgliadau, ac yn enwedig yn AOG (3.2.7)
- darparu'r cyfleusterau sylfaenol sydd eu hangen arnom i wasanaethu ein partneriaethau presennol a datblygu *Cyfoeth Cymru Gyfan - Sharing Treasures* (3.2.4.1)
- hwyluso rhaglen gyson o adnewyddu cynnwys sydd ei hangen i gynnal AOG (3.2.5)
- darparu cyfleusterau i ategu datblygiad mentrau newydd i ddenu cynulleidfaoedd newydd (3.2.2)
- darparu lle ar gyfer twf trefnus, yn enwedig mewn meysydd fel dodrefn, diwydiant cyfoes a chelf yr 20fed ganrif, lle mae'r casgliad cenedlaethol yn dal yn wan.

Yn ystod 2003-04, byddwn ni'n cynhyrchu cynlluniau manwl ar gyfer y datblygiad hwn, a fydd yn gofyn am gyllid ychwanegol y byddwn ni'n chwilio ac yn ceisio amdano. Rydym yn rhag-weld y bydd angen staff ychwanegol er mwyn symud y casgliadau i CGMG a'u rheoli yno, a châi'r mwyafrif o'r rhain eu penodi o dan gontractau tymor penodedig: bydd yna gostau ychwanegol yn gysylltiedig â gweithrediad y cyfleuster estynedig. Ceir manylion ein gofynion refeniw yn Adran 6 - Blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Ychwanegol. Caiff effaith cwblhau CGMG ei adlewyrchu'n bositif yn y targedau DP ac yn y perfformiad tuag at y targedau hynny.

**3.3.4 gweithredu ar argymhellion yr adolygiadau o'n gweithgareddau cadwraeth a dadansoddi.**

Cadwraeth yw'r broses o atal dirywiad naturiol anorfod gwrthrychau amgueddfa gymaint ag sy'n bosibl, ac mae'n sylfaenol i'n gofal am ein casgliadau cyfoethog ac amrywiol a'n dealltwriaeth o wrthrychau a sbesimenau. Yn 2001-02, yn rhan o'n hadolygiad o wasanaethau casglu, bu i ni gyflawni arolwg o'n gwasanaethau cadwraeth a dadansoddi. Nodwyd nifer o broblemau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn i ni allu darparu lefel o ofal dros ein casgliadau sydd o leiaf cystal â'r hyn a geir mewn sefydliadau cenedlaethol eraill, ac elwa i'r eithaf ar fanteision datblygu'r CGMG.

Yn ystod 2003, bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) yn cyflwyno canlyniadau ei harolwg o'n gwasanaethau casglu. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau hyn i fwydo'r cam nesaf, sef gweithredu argymhellion ein harolwg ein hunain. Yn fras, argymhellwyd creu adran gadwraeth o dan reolaeth ganolog fel y gellir cynnig cyfarwyddyd ac arweinyddiaeth strategol priodol i gefnogi elfennau o waith yr amgueddfeydd sy'n bartneriaid i ni yn ogystal â'n gweithgareddau ni ein hunain.

**3.3.5 ymateb i newidiadau yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas â materion Iechyd a Diogelwch.**

Er y byddwn yn parhau i fonitro'r ddeddfwriaeth newidiol yr ydym ni'n gweithredu odano, bydd yna ofyniad i AOCC ymateb i'r newidiadau a ddisgwylir yn y rheoliadau sy'n effeithio ar ein hadeiladau, gan gynnwys profion trydanol, triniaeth yn erbyn legionella, a darganfod a thrin asbestos. Rydym ni'n rhagweld y bydd swm cynyddol o'n harian refeniw a chyfalaf presennol yn mynd i ymdrin â'r meysydd hynny. Oni bai bod adnoddau ychwanegol ar gael, caiff yr arian sydd ar gael ar gyfer y gwaith cynnal-a-chadw sylweddol a nodwyd gan ein harolygon o gyflwr stoc, ac i ateb y gofynion ariannol sylweddol sy'n deillio o gyflwyno mynediad am ddim, yn lleihau. (Adran 6 – Blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Ychwanegol).

## MATER STRATEGOL 4 – Rhaid i ni hyrwyddo arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, a datblygu diwylliant meddwl-agored

## AMCANION CRAIDD

Byddwn yn:

**3.4.1 buddsoddi mewn datblygu ein staff fel eu bod hyd yn oed yn fwy ymroddgar a diwyd, ac wedi eu hysgogi gan ein llwyddiant corfforaethol, a chan eu cyflawniad personol o ran cyfrannu at y llwyddiant hwnnw.**

Mae amgueddfeydd am bobl yn ymateb i bobl; maent yn llawn pobl sy'n mwynhau croesawu ymwelwyr ac esbonio ein gwaith iddynt. Fel sefydliad, ein hadnoddyn mwyaf, ond hefyd ein cost fwyaf, yw ein staff. Mae gwaith amgueddfa, yn ôl ei natur, yn gofyn am unedau arbenigol, sy'n golygu nad yw'n hawdd cyfnewid sgiliau a staff. Ar hyn o bryd, rydym yn cyflogi 607 o bobl mewn amrywiaeth helaeth o swyddi amgueddfaol ac arbenigol eraill, a swyddi gweinyddol ac ategol priodol. Gellir dosbarthu'r staff fesul swyddogaeth gyffredinol fel a ganlyn: curadurol, cadwraeth ac ymchwil 30%; arddangosfeydd, addysg a swyddogaethau blaen tŷ 55%; codi arian a chyhoeddusrwydd 7%; rheolaeth a gweinyddiaeth 8%.

Un o'r materion sydd wedi bod o dan sylw yn y blynyddoedd diwethaf gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad, yw cyflogau cyfartal. O ganlyniad i archwiliad cyflogau cyfartal, cyflwynwyd strwythur graddfeydd newydd yn 2001-02 gyda chefnogaeth ein hundebau yn rhan o gytundeb cyflogau tair blynedd o hyd. Bydd gan yr arolwg graddfeydd oblygiadau ariannol parhaus, a bydd angen cyllid i dalu costau gweithredu hyn yn y dyfodol. Heb y cyllid angenrheidiol i weithredu'r arolwg yn llawn, byddwn yn agored i gael ein herio yn gyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth cyflogau cyfartal. Mae hwn felly yn un o'r cynigion ar gyfer adnoddau ychwanegol yn Adran 6.

Bydd y rhaglen strategol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad rheolwyr uwch, ar sail y gwerthusiad 360$^{o}$ o reolwyr a gyflawnwyd yn 2001-02, yn parhau fel y bydd gennym staff o dan arweiniad a rheolaeth glir, y mae eu medrau yn cael eu datblygu'n briodol ac a gaiff eu gwobrwyo'n briodol er mwyn cyflawni ein hamcanion erbyn 2005-06. Un o amcanion allweddol ein cynllun datblygu staff ehangach rhwng nawr a 2007 yw datblygu ein strategaeth cyfathrebu drwy roi Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ar waith i feithrin amodau lle bydd siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg yn cael eu hannog i gyfathrebu â ni yn iaith eu dewis (3.2.6).

## AMCANION AR GYFER NEWID

Byddwn yn:

### 3.4.2 datblygu trefniadau rheoli'r Amgueddfa

Bydd trafodaethau'n parhau gyda'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon er mwyn gosod cynnig gerbron Llys y Llywodraethwyr i fynd i'r afael â'r materion o ran rheolaeth a godwyd yn yr Arolwg Pum-mlynedd.

### 3.4.3 adolygu trefniadau pensiwn yr Amgueddfa.

Mae amrywiadau sylweddol yn mherfformiad y farchnad stoc wedi cael effaith wael ar berfformiad ein cynllun pensiwn. Caiff yr arolwg actiwarïaidd nesaf ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2003. Oni cheir gwelliant sylweddol ym mherfformiad y farchnad stoc ar fyrder neu oni ellir datrys y broblem drwy drosglwyddo ein cynllun pensiwn i Brif Gynllun Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil, daw diffyg sylweddol i'r amlwg. Fel cyflogydd a noddwr cynllun pensiwn, mae dyletswydd cyfreithiol arnom i unioni unrhyw ddiffyg hyd at lefel Isafswm y Gofyniad Cyllid. Er na wyddom yr union ffigur ar hyn o bryd, nodir gofyniad posibl o ran cyllid yn Adran 6 – Blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Ychwanegol.

### 3.4.4 adolygu buddiannau posibl ceisio ennill safon meincnod fel Buddsoddwyr mewn Pobl.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf rydym wedi buddsoddi adnoddau yn natblygiad ei staff; mae'r cytundeb cyflogau tair-blynedd a chwblhau hyfforddiant yr uwch-reolwyr yn cael eu gweld fel sylfeini i adeiladu arnynt er mwyn sicrhau bod cyfraniad ein staff yn cael ei werth fawrogi a'iddatblygu. Yn ystod oes y Cynllun hwn, byddwn yn pwyso a mesur y gwahanol ffyrdd sydd ar gael o fesur ein perfformiad mewn perthynas â datblygiad staff. Gan hynny, byddwn yn ystyried ceisio ennill un o'r safonau meincnod a ganlyn: *Buddsoddwyr mewn Pobl, y Nod Siarter* neu *ISO 9001*.

# MATER STRATEGOL 5 – Rhaid i ni wella ein sail ariannu er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau

## AMCANION CRAIDD

Byddwn yn:

### 3.5.1 defnyddio ein holl adnoddau'n effeithlon, yn greadigol ac yn gall.

Mae dros 90% o'n hadnoddau wedi eu hymrwymo eisoes i gostau sefydlog cyflogau, gwasanaethau a chytundebau cynnal-a-chadw ystadau. Er y gellir gwneud newidiadau er mwyn cwtogi ar staffio ac adolygu meysydd gweithgarwch, mae hyn yn cymryd amser ac yn dwyn goblygiadau o ran swyddi a chostau. Gyda llai na 10% o adnoddau yn hyblyg eu natur, mae ein gallu i ailddyrannu adnoddau er mwyn gweithredu'n fwy effeithlon yn gyfyngedig. Fodd bynnag, byddwn yn chwilio am ffyrdd o weithredu'n fwy effeithlon drwy gyflawni arolygon effeithlonrwydd mewn meysydd allweddol, adolygu gweithgareddau'n gyson, a gwella ein dulliau o gynllunio staff.

Mae defnyddio TGCh yn hanfodol i gyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun hwn a gwneud ein holl waith yn fwy effeithlon ac effeithiol. Rhaid i ni gynnal lefel sylweddol o fuddsoddiad yn ein seilwaith TGCh ac mewn staff i gynnal y rhwydweithiau a grëwyd, mewn hyfforddiant wrth ddefnyddio'r technolegau hyn, ac wrth ddatblygu'r fewnrwyd ymhellach.

Yn unol â pholisi Llywodraeth y Cynulliad, byddwn yn parhau i hyrwyddo cynaliadwyedd yn ein gweithgareddau, boed hynny drwy brynu nwyddau o ffynonellau cynaliadwy neu drwy ailgylchu ein gwastraff.

### 3.5.2 manteisio i'r eithaf ar ein gweithgareddau cynhyrchu incwm er mwyn gwella perfformiad ymhellach.

Ni all cynhyrchu incwm byth fod yn rheswm dros fodolaeth amgueddfa, a rhaid i hyn beidio â tharfu ar ei gweithgareddau craidd, felly mae Mater Strategol 5 yn cynnig cyfarwyddyd clir o ran gwelliannau yn y sail ariannu fel sylfaen i'n gweithgareddau blaenoriaeth. Mae'n ddigon clir hefyd y byddai'r gwelliannau hyn yn ychwanegu'n sylweddol at wireddu ein blaenoriaethau, at gynnal ein safonau uchel ac at ein galluogi i gyflwyno mentrau newydd.

| Dangosydd Perfformiad | 2001 - 02 canlyniad | 2002 - 03 canlyniad | 2003 - 04 targed | 2004 - 05 targed | 2005 - 06 targed | 2006 - 07 targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r amser a gollwyd oherwydd salwch | 4.1% | 4.1% | 4.0% | *4.0%* | *4.0%* | *4.0%* |

Mae portffolio cynyddol o grantiau oddi wrth CDL, Ewrop a ffynonellau eraill yn darparu cyllid craidd ar gyfer projectau penodedig a datblygiadau cyfalaf. Ymhellach, mae cynhyrchu incwm sylweddol yn allweddol, nid yn unig wrth ganiatáu i ni gefnogi ein costau refeniw ond, yn bwysicach na hynny, bydd yn darparu'r adnoddau i ehangu ein casgliadau, ein gweithgareddau a'n gwasanaethau y tu hwnt i lefelau ariannu presennol Llywodraeth y Cynulliad.

Bydd ein gallu i gynhyrchu'r incwm hwnnw yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gyda nifer ymwelwyr yn effeithio'n uniongyrchol ar lawer ohonynt. Er gwaethaf y rhagolygon economaidd ansicr, rydym yn hyderus y gallwn geisio twf pellach yn y ffrydiau incwm hyn yn ogystal â chadarnhau ein llwyddiant hyd yma.

Yn unol â'r polisi y cytunwyd arno eisoes, rydym wedi sefydlu Cwmni Masnachu fel is-gwmni o sy'n llwyr eiddo i ni. Dechreuodd y cwmni fasnachu ar 1 Ebrill 2003 a bydd yn canolbwyntio ar gynhyrchu incwm o'n gweithgareddau gwerthu, arlwyo, trwyddedu delweddau a llogi corfforaethol, gan weithredu o fewn amodau gorchwyl clir i sicrhau bod ei waith yn gydnaws â'n nodau.

Bydd y Cwmni Masnachu o dan fantell Bwrdd ar wahân â phrofiad masnachol perthnasol, a phenodwyd Pennaeth Masnachu o gefndir perthnasol ym mis Mawrth 2003. Rhagwelir fod yna dipyn o le i wella o ran

trosiant, elw gros, elw net, symud stoc, ac ati, ar draws ein holl weithgareddau. Bydd yr holl elw a wneir gan yr is-gwmni ar gael i ni i'w ddosbarthu at ddibenion gweithredu a chynllunio.

Mae rhai meysydd gweithgarwch y tu hwnt i gylch gwaith cychwynnol y Cwmni Masnachu er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar feysydd mwy masnachol i gychwyn. Fodd bynnag, bydd yr egwyddor o gynyddu incwm ac elw yn llywio ein holl weithgareddau codi arian. Bydd llwyddo yn yr holl feysydd hyn yn sail hefyd i nifer gynyddol o geisiadau am gyllid Ewropeaidd a chyllid y Loteri, a allai arwain at ddatblygiadau cyfalaf sylweddol.

| **Dangosydd Perfformiad** | **2001 - 02 canlyniad** | **2002 - 03 canlyniad** | **2003 - 04 targed** | **2004 - 05 targed** | **2005 - 06 targed** | **2006 - 07 targed** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhorthdal fesul ymwelydd[a] | £11.18 | £ 13.96[e] | £15.02[g] | *£15.02*[i] | *£12.52* | *£12.52* |
| Cymhorthdal fesul defnyddiwr[b] | £9.96 | £11.92[f] | £12.77 [h] | *£12.75*[k] | *£10.85* | *£10.83* |
| Incwm a gynhyrchwyd gan AOCC ei hun[c] fel % o'r gwariant gweithredu net[d] | 5.8% | 7.3% | 5.6% | *5.8%* | *6%* | 6.1% |
| Cymhorthdal fel cyfran o'r holl wariant gweithredol[d] | | 92% | 94.4% | *94.2%* | *94.0%* | 93.9% |

[a] ffigur gros yn cynnwys pob cymhorthdal (refeniw, cyfalaf a phwrcasu sbesimenau);

b nif. defn. = nif. ymwelwyr + cyfranogwyr mewn gweithgareddau allanol + ymweliadau gwefan dros 10 mun. + ymholiadau casgliadau;

[c] ac eithrio incwm o gyllid cyhoeddus (ee. CDL) a chyfraniadau a sicrhawyd ar gyfer projectau adeiladu cyfalaf penodol a phrynu sbesimenau.

[d] gwariant gweithredu net = cyfanswm gwariant gweithredu – costau ymylol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd, ee cyflogau staff siop

[e] seiliedig ar Gymhorthdal o £17,850,000 a 1,278,449 o ymwelwyr; [f] ar sail Cymhorthdal o £17,850,000 a 1,497,937 o ddefnyddwyr, yn ôl diffiniad [b]

[g] ar sail Cymhorthdal o £18,774,000 a 1,250,000 o ymwelwyr; [h] ar sail Cymhorthdal o £18,774,000 a 1,470,000 o ddefnyddwyr, yn ôl diffiniad [b]

[i] ar sail Cymhorthdal o £18,774,000 a 1,250,000 o ymwelwyr; [k] ar sail Cymhorthdal o £18,774,000 a 1,472,000 o ddefnyddwyr, yn ôl diffiniad [b]

## AMCANION AR GYFER NEWID

Byddwn yn:

### 3.5.3 datblygu rhoddion di-gyfyngiad gan unigolion a nawdd corfforaethol.

Er gwaethaf ein llwyddiant o ran cynhyrchu incwm yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o'r rhoddion mawr a dderbyniwn yn gyfyngedig i ddefnydd ar brojectau penodol. Er nad yw hynny wedi peri anawsterau mawr hyd yn hyn, fe fydd yna alw cynyddol dros y blynyddoedd nesaf am gyllid mwy hyblyg i'w wario yn ôl ein disgresiwn, a hynny o ran cyfeiriad ac amseru. Bydd y math hwn o dwf mewn "Cyllid Preifat" yn cydategu'r manteision sy'n codi o sicrhau'r elw mwyaf posibl ar ein gweithgareddau cynhyrchu incwm, fel a nodir yn 3.5.2 uchod. Mae nifer o gynlluniau i gynyddu lefel rhoddion di-gyfyngiad ar y gweill ar hyn o bryd. Y ffynhonnell fwyaf llwyddiannus hyd yn hyn yw'r cynlluniau aelodaeth lefel-uchel fel y Noddwyr a nawdd corfforaethol. Yn ystod oes y Cynllun hwn byddwn yn parhau i ddatblygu ac ehangu'r rhain ochr yn ochr â'n gweithgareddau eraill i godi arian.

# 4.0 RHAGDYBIAETHAU ALLWEDDOL

Lluniwyd y Cynllun hwn yn ystod y cyfnod Mawrth-Mehefin 2003 ar adeg o ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd rhyngwladol; ac o reidrwydd, gwnaed nifer o ragdybiaethau.

| | 2003-04 (£'000) | 2004-05 (£'000) | 2005-06 (£'000) | 2006-07 (£'000) |
|---|---|---|---|---|
| Cymhorthdal refeniw | 16,924 | 16,924 | 16,924 | |
| Grant Gyfalaf | 775 | 775 | 775 | |
| Grant Prynu Sbesimenau | 1,075 | 1,075 | 1,075 | |
| **Cyfanswm** | **18,744** | **18,744** | **18,744** | |

Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer cymhorthdal 2006 -07 ar hyn o bryd

**4.1** Mae'r ffigurau grant yn seiliedig ar y rhai a roddwyd i ni gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Chwefror 2003 ar gyfer 2003-04, heb unrhyw gynnydd yn y grantiau ar gyfer 2004-05 a 2005-06.

**4.2** Mae'r cynnig cyflogau dros dair blynedd a gyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad ym Medi 2001 wedi cael ei weithredu'n llwyr a chynhwyswyd 90% o'r costau yn ein grant refeniw ar gyfer 2003-04 yn unig. Rydym ni'n ddiolchgar i gydnabod y cyllid ychwanegol y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei ryddhau i ni i fynd i'r afael â materion cyflogau cyfartal.

**4.3** Rydym ni wedi rhagdybio y bydd y polisi mynediad am ddim yn parhau drwy gydol cyfnod y Cynllun.

**4.4** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhyddhau'r arian a glustnodwyd sydd dros ben ar ôl gwerthu hen Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru yng Nghaerdydd, ar gyfer datblygu AGG. Yn ychwanegol at hynny, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu hyd at £6m fel gwarant yn erbyn risg i'r project, ar yr amod ein bod ninnau'n gwneud ein gorau glas i sicrhau cyllid cyfatebol.

**4.5** Byddwn yn llwyddo i sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gyfer y datblygiadau mawr a enwyd yn y Cynllun hwn drwy CDL a ffynonellau cyllid eraill.

**4.6** Ni fydd unrhyw newid yn ein statws TAW sy'n caniatáu i ni adfer TAW yn llawn ar ein gweithgareddau a'n datblygiadau cyfalaf mawr, er bod mynediad i'r prif gasgliadau am ddim i bawb erbyn hyn.

**4.7** Byddwn yn cadw'r hyblygrwydd i ddyrannu adnoddau yn ôl yr angen er mwyn i ni arbed arian, darparu gwasanaethau gwell, cyflawni amcanion neu ganiatáu ar gyfer newidiadau sy'n deillio o ddatblygiadau cyllid a phartneriaeth pan fo'r cyfle'n codi.

# 5.0 Y GOBLYGIADAU ARIANNOL

Dangosir sefyllfa incwm a gwariant AOCC yn Nhabl 3. Mae hyn yn seiliedig ar y cymhorthdal y cawsom ni wybod amdano yn ein llythyr gorchwyl ym mis Chwefror 2003.

## 5.1 **Incwm a Gwariant Gweithredu**

Rydym yn croesawu'n fawr iawn y cynnydd yn ein grant refeniw ar gyfer 2003-04 diolch i gyfraniad Llywodraeth y Cynulliad at y cynnydd mewn cyflogau yn sgil yr archwiliad o gyflogau cyfartal. Fodd bynnag, mae'r cynllun ariannol yn Nhabl 3 yn adlewyrchu effeithiau parhaus yr arolwg hwn ar gostau yn y blynyddoedd sy'n weddill o dan y Cynllun cyfredol, wrth nodi nad yw'r llythyr gorchwyl a dderbyniwyd ym mis Chwefror 2003 yn cynnwys unrhyw gynnydd pellach mewn grantiau refeniw.

Gyda mwy o bwyslais ar wneud yr elw mwyaf posibl drwy'r Cwmni Masnachu, mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer twf bychan o 5% y flwyddyn ar hyn o bryd ar ffurf trosglwyddiad wedi ei gyfamodi o gyllid y cwmni i goffrau'r Amgueddfa. Bydd ffrydiau incwm eraill yn ei chael hi'n anodd darparu twf o fwy na 2% ac, yn yr un modd, byddai'n annoeth targedu twf sylweddol mewn cyllid preifat yn yr hinsawdd economaidd ansicr sydd ohoni.

Yn erbyn cefndir y sefyllfa o ran grantiau incwm a refeniw, y cynnydd mewn cyflogau a thwf o 3% mewn costau gweithredu yn arwain at ddiffyg ym mlynyddoedd dau a thri o'r cynllun ariannol. Ni fydd modd cyrraedd y targedau yn y cynllun hwn oni fydd cyllid refeniw ychwanegol yn cael ei ryddhau. Byddem yn croesawu cyfle i drafod y sefyllfa gyda'n hadran nawdd yn Llywodraeth y Cynulliad yn fuan am fod cyn lleied o le i arbed arian nawr yn sgil yr arbedion effeithlonrwydd blaenorol. Os na ellir sicrhau cyllid pellach, yna efallai y bydd angen gweithredu mesurau llai derbyniol. Mae'r Cynllun yn caniatáu ar gyfer ein cyfraniad at gostau cynnal AGG pan fydd yn agor yn 2005 ac rydym yn gwneud cais am y cyfraniad a ddisgrifiwyd mewn cynlluniau corfforaethol blaenorol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad.

Dylid nodi nad yw'r diffyg cynyddol yn y cynllun pensiynau, yn sgil y lleihad mewn gwerth buddsoddiadau, a chost gynyddol cynnal-a-chadw adeiladau wedi eu cynnwys yn y cynllun ariannol, a bydd angen trafod a gweithredu ar y materion hyn ar wahân.

## **5.2 Y Rhaglen Gynnal-a-chadw Gyfalaf**

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r Amgueddfa wedi comisiynu arolygon annibynnol o gyflwr er mwyn gwerthuso gwir gost gwaith cynnal-a-chadw parhaus ar ein hystâd. Cadarnhaodd hyn y ffaith y byddai angen buddsoddi swm o £1.2m bob blwyddyn i gynnal yr adeiladau presennol er mwyn gwella cyflwr yr ystâd a'i chynnal ar lefel briodol. Nid yw'r prisiad hwn yn cynnwys costau parhaus ailwampio ac ailddylunio'r arddangosiadau parhaol a fyddai, fel rheol, yn cael eu hadnewyddu dros gylch deng-mlynedd. O gynnwys yr elfennau dehongliadol hyn i ystyriaeth hefyd, y farn yw y byddai angen mwy na £2m y flwyddyn i sicrhau bod y symiau priodol yn cael eu buddsoddi mewn adeiladwaith ac offer. Mae cais am gyllid ychwanegol i fodloni'r gofynion cynnal-a-chadw bob dydd ac ailwampio'r orielau wedi ei gynnwys yn Adran 6 – Blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Ychwanegol

Y ffaith amdani yw yr hoeliwyd y dyraniad cyfalaf ar lefel o £775,000 y flwyddyn ers 1996-7, ac ar ôl cynnwys chwyddiant, mae ein dyraniad cyfalaf 53% yn is mewn termau real nag oedd ym 1994-5. Mae gwariant ar gyllid cyfatebol ar gyfer projectau mawr, bodloni gofynion deddfwriaethol, a datblygu ein rhwydwaith technoleg gwybodaeth yn cymryd o leiaf 50% o'r dyraniad blynyddol hwn.

Mae yna ddiffyg sylweddol o ran buddsoddiad yn ein hystâd ac mae hyn yn dechrau cael dod i'r amlwg ar ffurf mewn toeon sy'n gollwng a methiant dyfeisiau rheoli amgylcheddol sy'n amharu yn y pen draw ar brofiad yr ymwelwyr ac ar gyflwr tymor-hir y casgliadau.

Mae Tabl 4 yn dangos sut bwriedir dosbarthu ein grant cyfalaf yn ystod oes y Cynllun hwn.

## 5.3 Caffael Sbesimenau

Er mwyn parhau i fod yn amgueddfa fyw, ac fel cadwrfa deunyddiau tri-dimensiwn o'r gorffennol a'r presennol, mae angen i ni wella ein casgliadau at ddibenion cyflwyniad ac ymchwil. Rydym yn cyflawni swyddogaethau'r holl amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol a geir yn Llundain ar gyfer Cymru, felly gallai ein caffaeliadau mewn blwyddyn gynnwys peintiadau pwysig, cerbydau hanesyddol, casgliadau pwysig o ffosiliau neu blanhigion, celc o ddarnau arian, a hyd yn oed adeilad cyfan y mae angen ei ddatgymalu a'i ailgodi.

Gall gwrthrychau yn y casgliadau ddod ar ffurf roddion neu gymynroddion, drwy brynu, neu drwy eu casglu yn ystod gwaith maes neu gloddio. Y GPS sy'n talu am y ddau ddull olaf, a dyma hefyd sy'n talu am unrhyw waith cadwraeth angenrheidiol ar ôl caffael y gwrthrych ac am ailgodi adeiladau. Mae'r gostyngiad o £300,000 yn y grant hwn dair blynedd yn ôl, ar adeg pan rydym o dan bwysau cynyddol i ddiogelu ein treftadaeth ddiwydiannol a'i gwneud yn hygyrch i bobl, yn dal i fod yn destun pryder. Mae costau prynu yn cynyddu, gan wneud symud ac ailgodi adeiladau Cymreig o bwys neu brynu peintiadau neu lestri cain, er enghraifft, yn fwyfwy anodd ei fforddio. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae ein GPS erbyn hyn fwy na 30% yn is nag yr oedd ym 1994-5; ac nid yw'r amcangyfrif hwn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith fod prisiau yn cynyddu o dipyn mwy na'r gyfradd chwyddiant ym meysydd treftadaeth a diwylliant. Rydym wedi cynnwys cais am gyllid i adfer y Grant Prynu Sbesimenau i'w lefel flaenorol yn Adran 6 – Blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Ychwanegol.

Er ein bod ni'n poeni am level gyfredol y cyllid ar gyfer prynu sbesimenau, mae'r ffaith y byddai'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Y Gymraeg a Chwaraeon yn ystyried ceisiadau am gyllid ychwanegol pe bai sefyllfa'n codi lle gallai'r genedl golli eitemau o arwyddocâd rhyngwladol.

## Tabl 3: Cynllun Ariannol

Mae'r cynllun isod yn dangos ei bod yn bosibl y bydd yna ddiffyg rhwng yr incwm a'r gwariant ac rydym yn disgwyl i'r ceisiadau am adnoddau ychwanegol a nodwyd yn Adran 6 unioni'r diffyg. Os yw'r ceisiadau'n aflwyddiannus, mae'n bosibl y bydd rhaid i ni ystyried rhai o'r mesurau effeithlonrwydd annymunol a restrir yn adran 7.3, y gallai llawer ohonynt ofyn am drafodaethau gyda'r undebau llafur.

| INCWM | 2003-04 £'000 | 2004-05 £'000 | 2005-06 £'000 | 2006-07[5] £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gweddill gros a ddygwyd ymlaen | | | | |
| **Grant Refeniw** | 16,924 | 16,924 | 16,924 | |
| **Grant Cyfalaf** | 775 | 775 | 775 | |
| **Dyraniad cyfalaf ar gyfer projectau arbennig** | 1,800 [1] | 1,200 [2] | 2,000 [3] | |
| **Grant Prynu Sbesimenau** | 1,075 | 1,075 | 1,075 | |
| Trosglwyddiad dan gyfamod oddi wrth y Cwmni Masnachu | 164 | 172 | 180 | |
| Incwm arall | 628 | 640 | 653 | |
| Cyllid preifat4 | 220 | 230 | 240 | |
| **CYFANSWM INCWM**<br>**GWARIANT** | 21,586 | 21,016 | 21,847 | |
| **Refeniw** | | | | |
| Cyflogau (Net ar ôl yr hyn a ailgodir ar y Cwmni Masnachu) | 13,919 | 14,893 | 15,747 | |
| Costau gweithredu (Net ar ôl yr hyn a ailgodir ar y Cwmni Masnachu) | 3,797 | 3,910 | 4,028 | |
| **Cyfalaf (gweler Tabl 4 am ddadansoddiad** | 775 | 775 | 775 | |
| **Dyraniad cyfalaf ar gyfer projectau arbennig** | 1800 [1] | 1200 [3] | 2000 [4] | |
| **Prynu Sbesimenau** | 1,075 | 1,075 | 1,075 | |
| **Yr Adran Ddatblygu o Gyllid Preifat** | 180 | 190 | 200 | |
| **Gwariant arall o Gyllid Preifat** | 40 | 40 | 40 | |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **21,586** | **22,083** | **23,865** | |
| | | | | |

NODIADAU:
Mae'r crynodeb o incwm a gwariant yn cynnwys cyllid grant, y cyllid a ddyrennir yn uniongyrchol ar gyfer y Pwll Mawr a chostau'r Adran Ddatblygu, ond nid yw'n cynnwys codi arian cyfalaf ar gyfer cronfeydd preifat.

[1] yn cynnwys £1.5m a dynnwyd i lawr fel ein cyfraniad at AGG a £300,000 i ddatblygu'r CGMG yn Nantgarw
[2] yn cynnwys £1.2m a dynnwyd i lawr ar gyfer datblygu'r CGMG yn Nantgarw.
[3] yn cynnwys £2m a dynnwyd i lawr ar gyfer datblygu'r CGMG yn Nantgarw.
[4] nid yw hyn yn cynnwys codi arian cyfalaf ar gyfer projectau cyfalaf mawr.
[5] nid oes ffigurau ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cymorthdal 2006-07.

**Tabl 4: Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwaith Cynnal-a-chadw – heb ei flaenoriaethu**

| Site | Project | 2003-04<br>£ | 2004-05<br>£ | 2005-06<br>£ | 2006-07<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob Safle | Mynediad i bobl anabl | 70,000 | 70,000 | 70,000 | 70,000 |
| Pob Safle | Iechyd a Diogelwch | 70,000 | 70,000 | 50,000 | 50,000 |
| Pob Safle | Cynnal-a-chadw'r system TGCh | 125,000 | 125,000 | 125,000 | 125,000 |
| Pob Safle | Taliadau cadw a mân waith | 10,000 | 10,000 | 30,000 | 30,000 |
| Pob Safle | Diogelwch | 18,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| Pob Safle | Diogelwch | 0 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| Pob Safle | Rhaglen effeithlonrwydd ynni | 0 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| Pob Safle | Arwyddion | 0 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| AOG | Prynu offer cynnal-a-chadw a pheirianwaith newydd | 0 | 40,000 | 50,000 | 50,000 |
| AWC | Adnewyddu cesys | 0 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| AOG | Adolygu lle | 20,000 | 30,000 | 30,000 | 30,000 |
| AOG | Cynnal-a-chadw ac adnewyddu'r to | 0 | 200,000 | 250,000 | 250,000 |
| AOG | Ailgynllunio'r fynedfa | 140,000 | 0 | 0 | 0 |
| AOG | Ffwrn Gyfunol | 8,000 | 0 | 0 | 0 |
| AOG ac AWC | Diogelu ymylon y to | 24,000 | 24,000 | 30,000 | 30,000 |
| AWC | Dosbarthiad trydan | 0 | 0 | 0 | 15,000 |
| AWC | Adnewyddu cesys | 0 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| AWC | Seilwaith | 0 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| AWC | Siop y plant | 8,000 | 0 | 0 | 0 |
| AWC | Trwsio to'r castell | 90,000 | 0 | 0 | 0 |
| ADGC | Cyllid cyfatebol CDL | 80,000 | 50,000 | 0 | 0 |
| ADGC | Siop a nwyddau newydd | 12,000 | 0 | 0 | 0 |
| ALIR | Cyllid cyfatebol ar gyfer yr ardd | 0 | 0 | 10,000 | 0 |
| ALIR | Adnewyddu'r nenfwd a goleuadau | 0 | 10,000 | 20,000 | 20,000 |
| ALC | Oriel Lechi (Orielau 8 a 9) | 0 | 0 | 5,000 | 0 |
| ALC | Llofft batrymu | 0 | 0 | 25,000 | 25,000 |
| Pwll Mawr | Gwarantu project datblygu | 100,000 | 66,000 | 0 | 0 |
| | **CYFANSWM GWARIANT** | **775,000** | **775,000** | **775,000** | **775,000** |
| *AGG* | *Cyllid a dynnwyd i lawr fel cyfraniad AOCC at AGG* | *1,500,000* | | | |
| *CGMG* | *Cyllid a dynnwyd i lawr fel cyllid datblygu cyfalaf* | *300,000* | *1,200,000* | *2,000,000* | |

## 6.0 BLAENORIAETHAU AOCC AR GYFER CYLLID YCHWANEGOL 2004-07

Mae'n debyg bod y Cynllun Corfforaethol hwn yn adlewyrchu'r cyfnod mwyaf arwyddocaol o newid yn hanes AOCC. Mae'n cwmpasu cyfnod pan caiff y gwaith ailddatblygu mawr yn PM ac ADGC eu cwblhau, a phan caiff yr AGG flaenllaw ei datblygu a'i chwblhau. Bydd y datblygiadau sylweddol hyn yn galw am gyllid ychwanegol sylweddol er mwyn sicrhau bod modd eu cynnal. Yr un pryd, bydd rhaid i ni wynebu sawl her sydd wedi cronni oherwydd y gostyngiad, mewn termau real, yn ein cyllid refeniw, cyfalaf a'r GPS.

Gan hynny, mae'r tabl isod yn nodi nifer o flaenoriaethau ar gyfer cyllid ychwanegol. Mae sail ddeddfwriaethol i nifer o'r rhain: ac heb y cyllid ychwanegol a ddisgrifir, ni fyddwn yn gallu cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol. Mae eraill yn ymwneud â meysydd allweddol mewn perthynas â chynnal-a-chadw'r ystâd neu â'n strategaethau polisi a datblygu.

Wrth gynnig y projectau hyn yn nhrefn eu blaenoriaeth, rhagdybiwyd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu'r cynnydd arferol o 2.5% yn ôl chwyddiant yn ein grant refeniw yn ogystal; heb hynny, bydd sefyllfa sydd eisoes yn un anodd yn gwaethygu'n sylweddol.

| Cyf. Blaenoriaeth | Paragraff | Project | Cynnydd mewn cymhorthdal (£'000) 2004-05 | | Cynnydd mewn cymhorthdal (£'000) 2005-06 | | Cynnydd mewn cymhorthdal (£'000) 2006-07 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfalaf | Refeniw | Cyfalaf | Refeniw | Cyfalaf | Refeniw |
| 1 | 3.4.3 | Mae perfformiad y farchnad stoc yn cael effaith wael ar ein cronfa bensiynau. Rhagwelwn y bydd yr arolwg actwarïaidd nesaf , a gaiff ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2003, yn dangos diffyg. Er na wyddom beth yw'r ffigur ar hyn o bryd, oni cheir gwelliant sylweddol yn y farchnad stoc ar fyrder neu oni ellir datrys y sefyllfa drwy drosglwyddo ein cynllun pensiynau i Brif Gynllun Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil (PCSPS), bydd rhwymedigaeth ariannol sylweddol yn crisialu.<br><br>Fel cyflogydd a noddwr cynllun pensiwn, mae dyletswydd cyfreithiol arnom i unioni unrhyw ddiffyg a chynyddu'r gronfa hyd at lefel Isafswm y Gofyniad Cyllid. Tra bod Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi darparu chwistrelliad o £1m, bu gofyn i ni hefyd gynyddu ein cyfraniad (a ddangosir fel canran o gyflogau staff) o 14.7% i 16.8%. Adroddir ar ddiffyg pellach yn ein cyfrifon o dan FRS17 ac yna bydd rhaid i ni gytuno ar gamau priodol i gynyddu'r cynllun i lefel Isafswm y Gofyniad Cyllid. | Anhysbys | | | | | |

| Cyf Blaenoriaeth | Paragraff | Project | Cynydd mewn cymorthdal (£'000) 2004-05 | | Cynydd mewn cymorthdal (£'000) 2005-06 | | ICynydd mewn cymorthdal (£'000) 2006-07 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfalaf | Refeniw | Cyfalaf | Refeniw | Cyfalaf | Refeniw |
| 2 | 3.4.1 | O ganlyniad i archwiliad cyflogau cyfartal, cyflwynwyd strwythur graddfeydd newydd yn 2001-02 gyda chefnogaeth ein hundebau yn rhan o gytundeb cyflogau tair blynedd o hyd. Bydd gan yr arolwg graddfeydd oblygiadau ariannol parhaus, bydd angen cyllid ychwanegol i dalu cost gweithredu'r argymhellion yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r arolwg graddfeydd eisoes wedi effeithio'n bositif ar ein gallu i recriwtio a dal gafael ar ein staff. Heb y cyllid angenrheidiol i weithredu'r arolwg yn llawn, byddwn yn agored i gael ein herio yn gyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth cyflogau cyfartal, yn enwedig gan y byddem yn anghyson â safbwynt Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | | 1248 | | 918 | | 885 |
| 3 | 3.2.5 | Mae dau fater yn ymwneud â chyllido yn codi o'r cynllun busnes sydd heb ffynhonnell incwm ddynodedig ar hyn o bryd:<br>A:Costau cyn-agor ar gyfer 2004-05 fel penodi Ceidwad; B: grant mynediad 2005-06 i adlewyrchu'r newid yn ein polisi mynediad am ddim a ddaeth i rym wedi i ni gychwyn ar y datblygiad.<br>Bydd agor yr AGG yn 2005-06 yn cau pen y mwdwl ar weithredu ein Strategaeth ar gyfer Diwydiant. Mae'r datblygiad arloesol hwn wrth graidd ailddatblygu glannau Dinas Abertawe. Rydym eisoes wedi ymrwymo i ddarparu £500,000 y flwyddyn o'n hadnoddau presennol i dalu costau refeniw blynyddol cynnal yr amgueddfa.<br>Mae'r Cynllun Busnes a gymeradwywyd gan CDL wedi ei seilio ar y rhagdybiaeth y bydd £500,000 o gyllid refeniw ychwanegol ar gael i'r project fel cymhorthdal gennym ni. Heb y lefel uwch hon o gyllid refeniw, ni fyddai cynllun gweithredol yr AGG yn ymarferol, ac ni fyddai'r amgueddfa newydd yn gallu agor. | | 323 | | 500 | | 515 |
| 4 | 3.3.3 | Mae'n hanfodol sicrhau cyllid refeniw ychwanegol ar gyfer y CGMG er mwyn paratoi'r casgliadau ar gyfer eu trosglwyddo i'r ganolfan newydd a chynnal ei gallu i hwyluso gwaith partneriaeth ehangach ledled Cymru. Nod gyffredinol datblygu CGMG yn Nantgarw yw darparu cyfleuster storio â'r offer priodol o dan reolaeth effeithiol a fydd yn darparu'r amodau materol ac amgylcheddol priodol i ofalu am y casgliadau yn y tymor hir a gwneud gwaith cadwraeth arnynt. Canlyniad uniongyrchol hyn fydd y gallu i gynnig gwell mynediad i'n casgliadau ymchwil, boed hynny yn ein hamgueddfeydd, mewn partneriaeth ag eraill, neu drwy ddulliau rhithwir. Yn arbennig, bydd yn ei gwneud hi'n haws rhedeg rhaglen o arddangosiadau sy'n newid yn gyson yn AGG. Rhagwelwn y bydd ailwampio'r casgliadau, parhau i'w cynnal a'u cadw, a hwyluso mynediad a threfniadau partneriaeth yn golygu y bydd angen mwy o staff (ar gytundebau dros-dro, yn bennaf); bydd gweithredu'r CGMG yn golygu cynnydd mewn costau gweithredu hefyd. | | 90 | | 155 | | 313 |

| Blaenoriaeth | Cyf<br>Paragraff | Project | Cynydd mewn cymorthdal (£'000) 2004-05 | | Cynydd mewn cymorthdal (£'000) 2005-06 | | ICynydd mewn cymorthdal (£'000) 2006-07 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfalaf | Refeniw | Cyfalaf | Refeniw | Cyfalaf | Refeniw |
| 5 | 3.3.2<br>3.1.9<br>5.2<br>3.3.5 | Mae angen cyllid ychwanegol ar ddwy agwedd ar y gwaith cynnal-a-chadw craidd:<br>1. Mae'r nifer aruthrol o ymwelwyr yn sgil mynediad am ddim wedi cyflymu traul ar ein hamgueddfeydd. Er y gellir talu am rywfaint o'r gwaith trwsio ac adnewyddu gan ddefnyddio cyllid amgen fel arian o'r cynnydd mewn cyfraniadau a thrwy ailasesu blaenoriaethau mewnol, rhaid dod o hyd i adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau hygyrchedd ein hamgueddfeydd yn y tymor hir.<br>2. Mae arolygon diweddar o gyflwr stoc yn dangos bod angen gwario o leiaf £5m dros y pum mlynedd nesaf er mwyn bodloni gofynion ein rhaglen o waith cynnal-a-chadw, gan gynnwys sicrhau bod y toeon sy'n gollwng yn ddifrifol yn AOG ac AWC yn dal dŵr. Heb y cyllid ychwanegol hwn, bydd y gyllideb cyfalaf yn cyfyngu ar ein gwaith cynnal-a-chadw i atebion dros dro a fydd yn fwy costus yn y tymor hir. Cododd ein Pwyllgor Archwilio y materion hyn fel mater o risg sylweddol ac mant am i ni roi strategaeth gynnal-a-chadw cynhwysfawr ar waith. Heb gyllid ychwanegol, bydd angen ymateb i newidiau yn y ddeddfwriaeth a'r amodau rheoli sy'n effeithio ar adeiladau yn cwtogi ar y cyllid sydd ar gael i ymdrin â phroblemau cynnal-a-chadw difrifol, a bydd yn arwain yn y pen draw at gau orielau oni ellir cartrefu casgliadau o dan amodau sy'n bodloni safonau diogelwch a safonau amgylcheddol angenrheidiol eraill er mwyn i indemniad y llywodraeth fod yn ddilys. | 500 | | 1,000 | | 1,500 | |
| 6 | 3.2.4 | Mae angen cymorth ychwanegol ar ein strategaethau partneriaeth llwyddiannus: mae Cyfoeth Cymru Gyfan - Sharing Treasures a mentrau partneriaeth eraill yn rhoi cyfle i ni weithredu amrywiaeth eang o fentrau datblygu cynulleidfaoedd, gan gynnwys gwaith addysgol allanol, gyda'r nod o gyrraedd grwpiau a dangynrychiolir a rhai sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol. Bydd y cynnig hwn yn ein galluogi ni i fwrw ymlaen â'r gweithgareddau hyn a bodloni disgwyliadau darpar-bartneriaid, a thrwy hynny gyflawni dyheadau ein Cyngor a Llywodraeth y Cynulliad am i'r casgliadau cenedlaethol fod yn hygyrch i bawb ledled Cymru. | | 120 | | 200 | | 210 |

| Blaenoriaeth | Cyf Paragraff | Project | Cynydd mewn cymorthdal (£'000) 2004-05 | | Cynydd mewn cymorthdal (£'000) 2005-06 | | ICynydd mewn cymorthdal (£'000) 2006-07 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfalaf | Refeniw | Cyfalaf | Refeniw | Cyfalaf | Refeniw |
| 3.2.7.2 | | Mae datblygu cyfleuster *Cyflwyniad i Gymru* yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad yn ôl ein llythyr gorchwyl.<br>Bydd datblygu'r cyfleuster hwn yn AWC yn rhoi gwell cyfeiriad i'r amgueddfa ac yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i hanes a diwylliant Cymru i'r ymwelwyr. Y datblygiad hwn yw'r cam cyntaf tuag at droi AWC yn Ganolfan Ddehongli Cymru, canolfan addysgol sy'n cynnig adnoddau a chyfleusterau hanesyddol a chyfoes.<br>Byddai'r adnoddau y gwneir cais amdanynt yn cael eu defnyddio i ddenu cyllid ychwanegol i mewn i Gymru. | | | 200 | | 300 | |
| 8 | 3.2.7.1. | Mae angen buddsoddi mwy yn ein harddangosiadau a'n harddangosfeydd ac mewn prynu eitemau.<br>Mae bodloni disgwyliadau ymwelwyr yn her ddyddiol mewn byd lle mae gwyddor amgueddfeydd a dulliau addysgu yn datblygu'n barhaus, ac yn enwedig mewn perthynas â gwyddoniaeth. Rhaid i ni barhau i fod yn berthnasol i'n hymwelwyr sydd bellach yn disgwyl arddangosiadau newidiol sy'n bwrw mwy o oleuni ar ein casgliadau ac yn ymatebi newidiadau mewn agendâu rhyngwladol. Mae angen adnewyddu arddangosiadau parhaol a'u hailddehongli, a rhaid i ni allu cynnal rhaglen o arddangosfeydd llai hefyd. Rhaid i ni barhau i gaffael eitemau newydd ar gyfer y casgliad hefyd tra bod cost hynny'n cynyddu. Caiff y cyllid a ddisgrifiwyd ei ddefnyddio i ategu'r adnoddau a ryddheir gan y moratoriwm ar arddangosfeydd, a'i cael ei ddefnyddio ar y cyd fel cyllid cyfatebol mewn cynnig i'r gronfa Re:discover. | 300 | | 300 | | 300 | |

Mae'r uchod yn crynhoi ein blaenoriaethau ar gyfer cyllid ychwanegol, ond bydd dau fenter bwysig arall, a allai ddwyn goblygiadau ariannol, yn ymddangos fel blaenoriaethau yng Nghynlluniau Corfforaethol y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi comisiynu ystyriaeth bellach o waith ein hadrannau curadurol o safbwynt sut y gellir cefnogi agendâu amgylcheddol a gwyddonol Llywodraeth y Cynulliad (3.2.6).

Rydym hefyd wedi mynegi ein hymrwymiad i gefnogi'r bartneriaeth, dan arweiniad PCAP, i ddatblygu Canolfan Sutherland ar gyfer celf a'r amgylchedd (3.2.4.5). Er y byddwn yn gallu cyfrannu'n helaeth o safbwynt cyfraniad curadurol a benthyca casgliadau fel rhan o'n mentrau partneriaeth ehangach, rhagwelwn y bydd angen rhywfaint o gyfraniad ariannol. Dylid ystyried hyn yn rhan o'r rhaglen bartneriaeth sy'n datblygu ac sy'n ei gwneud hi'n bosibl i'r casgliadau sydd yn ein gofal gael eu gweld ledled cymunedau Cymru.

# 7.0 CYNLLUNIO RHAG RHAID A MESURAU EFFEITHLONRWYDD

Mae gofyn i ni gynllunio cyllideb gytbwys bob blwyddyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn ein bod ni'n paratoi'r adran hon, ac mae'n amlinellu rhai mesurau effeithlonrwydd a allai ryddhau cyllid yn achos gostyngiad o hyd at 5% yn ein cymhorthdal.

**7.1** Er y bu'r cynnydd diweddar yn ein cymhorthdal yn beth i'w groesawu ac yn angenrheidiol, mae'n dilyn cyfnod o gymhorthdal is, ac ni chafwyd unrhyw newid yn y cyllid rhwng 1996-7 a 1998-9. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, roedd hyn gyfystyr â gostyngiad mewn termau real o 7.5% o 1994-5 i 2001-02. Er mwyn gwrthbwyso chwyddiant, gwella gwasanaethau a chyflawni rhwymedigaethau statudol (fel gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg) bu angen cwtogi'n sylweddol ar ddarpariaeth yr amgueddfeydd a'u lefelau staffio, gan gynnwys cau neu drosglwyddo pedair amgueddfa a gweithredu tri chynllun diswyddo gwirfoddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. At hynny, rydym bellach yn cynnal TT ac ARS mewn partneriaeth ag eraill. Mae gweithgareddau newydd diweddar wedi cael eu hariannu gan arian preifat i raddau helaeth, neu drwy gwtogi ar weithgareddau fel Theatr-mewn-Amgueddfeydd, arddangosfeydd dros dro mewn canolfannau heblaw AOG, neu drwy gau mannau cyhoeddus i leihau gofynion staffio.

**7.2** Yng ngoleuni'r rhaglen hon o gau a chwtogi, nid oes fawr ddim mesurau effeithiolrwydd ar ôl y byddai'n strategol bosibl i AOCC eu gweithredu neu a fyddai'n wleidyddol dderbyniol i Lywodraeth y Cynulliad. Byddwn yn parhau i gyflawni *adolygiadau o bob gweithgaredd a gwasanaeth* dros y pum mlynedd nesaf gyda'r nod o wella effeithiolrwydd lle bynnag y bo modd yn ogystal â sicrhau effeithlonrwydd a gwerth gorau. Bydd y broses hon yn nodi meysydd blaenoriaeth y dylid dyrannu adnoddau iddynt yn y dyfodol yn ogystal ag unrhyw feysydd lle gellid arbed arian, er y disgwylir i'r rhain fod yn gyfyngedig.

**7.3** Er na ragwelir y bydd yr adolygiadau hyn yn arwain at unrhyw arbedion mewn termau go iawn, rhoddir manylion camau y gellid eu cymryd yn achos toria o 5% yn y cymhorthdal a cheir crynodeb o'r rhain yn Nhabl 5. Os oes unrhyw geisiau am gyllid yn aflwyddiannus, ni fydd gennym fawr o ddewis ond ystyried rhoi rhai o'r mesurau annymunol hyn ar waith.

**7.3.1** Gall **cau orielau, adeiladau a ailgodwyd a mannau cyhoeddus eraill** pan nad oes llawer o alw amdanynt arbed arian i'n hamgueddfeydd mwyaf. Er y gallwn fod yn weddol hyblyg o hyd (er mwyn osgoi siomi ymwelwyr) mae mesurau o'r fath yn ddi-os yn effeithio ar ansawdd ein gwasanaethau, gan beri anfodlonrwydd ymhlith ymwelwyr. Mae cynllunio oriau gwaith staff pan gaeir safleoedd yn arbennig o anodd ar rai safleoedd awyr-agored sy'n ddibynnol ar y tywydd. Mae'n bosibl y gellid cyflawni 50% o'r arbedion hyn heb orfod colli swyddi parhaol.

**7.3.2** Gellid cwtogi ar oriau agor rhai o'n hamgueddfeydd (neu bob un ohonynt). Gallai hynny olygu byrhau oriau agor neu gau am ddiwrnodau cyfan. Gellid arbed y symiau a nodir drwy golli staff drwy'r drefn naturiol, ac ad-drefnu rotas gwaith, ond mae'n anochel y gallai ambell un golli ei swydd. Fodd bynnag, byddai hynny'n arwain yn anochel at lai o fynediad i'r cyhoedd ar adeg pan fo niferoedd ymwelwyr wedi cynyd du'n aruthrol mewn ymateb i fynediad am ddim. Byddwn yn holi barn ein hymwelwyr a phobl nad ydynt yn ymweld â ni am ein horiau agor drwy gyfrwng arolygon rheolaidd. Ar sail asesiadau a wnaed ym 1999, gwyddom fod modd arbed £77,000 i gychwyn, a allai godi i £220,000. Gellid cyflawni 50% o'r arbedion hyn heb golli swyddi parhaol.

**7.3.3** Gallai **cynllun diswyddo newydd**, wedi ei ariannu gan chwistrelliad cyfalaf unwaith-ac-am-byth gan Lywodraeth y Cynulliad, leihau'r costau refeniw parhaus. Am fod yr Amgueddfa wedi gweithredu tri chynllun diswyddo gwirfoddol yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'n debygol na fydd yr ymgeiswyr, a allai fod yn ddigonol o ran nifer, yn dod o swyddi y gellid eu hystyried yn rhai diangen. Bach iawn felly fyddai'r arbedion gan adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y person sy'n ymadael â'r ymgeisydd newydd. Er mwyn gwneud unrhyw gyfraniad sylweddol at arbedion cost, byddai

angen elfen o orfodaeth ar unrhyw gynllun diswyddo a fyddai'n cael effaith and wyol ar ysbryd y staff.

**7.3.4** Rydym ar hyn o bryd yn codi tâl mynediad bychan ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau sy'n golygu defnyddio cyfleusterau y tu allan i oriau gwaith arferol neu lle mae elfen sylweddol wedi cael ei phrynu i mewn o ffynhonnell arall. Pe bai angen cynyddu'r incwm hwnnw, un dewis fyddai codi mwy am weithgareddau â gwerth ychwanegol, fel gweithdai i athrawon, a phob arddangosfa dros-dro a digwyddiad mawr. Er y gallai cyflwyno polisi o'r fath leihau niferoedd yr ymwelwyr, gallai gynyddu lefelau incwm.

**7.3.5** Mae goblygiadau negyddol i'r holl fesurau a gyflwynir yma, o ran mynediad i'r cyhoedd, lefelau gwasanaeth ac, o ganlyniad, boddhad ymwelwyr. Mae'n debyg y byddai'r cyhoeddusrwydd gwael yn amharu fwyfwy ar niferoedd ymwelwyr, ac y byddai'r canfyddiad o amgueddfa nad yw'n apelio at y cyhoedd yn effeithio ar nawdd corfforaethol ac ar godi arian yn fuan iawn. Byddai mesurau o'r fath hefyd yn tanseilio'n ddifrifol ein llwyddiant hyd yma o ran cyflawni amcanion y Cynulliad.

**Tabl 5: Mesurau effeithlonrwydd posibl**
**(ar sail cymhorthdal refeniw o £16,924,000 ar gyfer 2003-04)**

| | Arbediad £000 | Arbediad % |
|---|---|---|
| Cynllun diswyddo | 190 | 1.1 |
| Cau orielau, adeiladau a ailgodwyd a mannau cyhoeddus eraill | 270 | 1.6 |
| Cwtogi ar oriau agor | 270 | 1.6 |
| Dechrau codi am weithgareddau a gwasanaethau â gwerth ychwanegol | 120 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **850** | **5.00** |

# Ein Hamgueddfeydd

**Yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol**
**Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP (029) 2039 7951**
**Ar agor Mawrth-Sul a dydd Llun Gŵyl y Banc 10am-5pm**

Ymweliadau yn 2000-01: 226,876 (cyn mynediad am ddim)
Ymweliadau yn 2001-02: 353,924
Ymweliadau yn 2002-03: 321,968
Targed 2003-04: 325,000
Staff: 310
Cyllideb:£7,272,000

Mae'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Caerdydd yn unigryw ymhlith amgueddfeydd cenedlaethol y DU o ran amrywiaeth ei harddangosiadau celf a gwyddoniaeth. Mae'n cynnwys yr Oriel Gelf Genedlaethol ochr yn ochr ag adrannau curadurol eraill sy'n fyd-enwog am eu gwaith ym meysydd Archaeoleg a Niwmismateg, Daeareg, a Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol.

Cynhelir mwy nag wythdeg o ddigwyddiadau i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn, o sgyrsiau ar gadwraeth ymlusgiaid môr Jwrasig i arddangosiadau o adar ysglyfaethus; o ddadleuon ynglŷn â chelf Gymreig a'i lle yn y byd i drafodaethau am y modd y mae archaeolegwyr yn cyfleu gorffennol Cymru. Prif arddangosfa rhaglen 2003-04 fydd *Thomas Jones: ailddarganfod artist*, 21 Mai - 10 Awst 2003.

**Amgueddfa Werin Cymru**
**Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB (029) 2057 3500**
**Ar agor bob dydd 10am – 5pm**

Ymweliadau yn 2000-01: 321,810 (cyn mynediad am ddim)
Ymweliadau yn 2001-02: 694,899
Ymweliadau yn 2002-03: 623,529
Targed 2003-04: 595,000
Staff: 174
Cyllideb: £5,805,000

Mae Amgueddfa Werin Cymru, un o amgueddfeydd awyr-agored blaenllaw Ewrop, yn un o'r grŵp o bedair Amgueddfa Hanes Cymdeithasol a Diwydiannol a gynhelir gan AOCC a ganddi hi mae'r adran guradurol fwyaf, Diwydiant Cymdeithasol a Diwylliannol. O ail-greu pentref Celtaidd hynafol i godi Tŷ newydd sbon ar gyfer y Dyfodol, gall ymwelwyr archwilio a mwynhau dros 2,000 o flynyddoedd o hanes mewn dros ddeugain o adeiladau o wahanol gyfnodau sydd wedi cael eu casglu o bob rhan o Gymru a'u hailgodi yma.

**Amgueddfa Lechi Cymru**
**Gilfach Ddu, Llanberis, Gwynedd, LL55 4TY (01286) 870630**
**Ar agor Pasg-Hydref bob dydd 10am–5pm, Tach-Pasg Sul-Gwe 10am–4pm, ar gau Sad**

Ymweliadau yn 2000-01: 53,890 (cyn mynediad am ddim)
Ymweliadau yn 2001-02: 144,408
Ymweliadau yn 2002-03: 130,201
Targed 2003-04: 125,000
Staff: 31
Cyllideb: £957,000

Daw hanes llechi'n fyw o flaen llygaid yr ymwelwyr wrth iddynt wylio crefftwyr medrus yn hollti a naddu'r llechi â llaw, a gwylio'r olwyn ddŵr fwyaf sy'n dal i weithio ar dir mawr Prydain. Mae'r Amgueddfa'n cynnig cipolwg unigryw hefyd ar fywydau'r chwarelwyr a'u teuluoedd yn rhifau 1-4 Fron Haul – teras o fythynnod a symudwyd i'r Amgueddfa o'u safle gwreiddiol yn Nhanygrisiau ac sydd wedi eu dodrefnu yn arddull tri chyfnod hanesyddol gwahanol.

**Pwll Mawr:Yr Amgueddfa Lofaol Genedlaethol**
**Blaenafon,Torfaen NP4 9XP (01495) 790311**
**13 Chwe - 30 Tach, ar agor bob dydd 9.30-5pm**

Ymweliadau yn 2000-01: 73,914 (cyn mynediad am ddim)
Ymweliadau yn 2001-02: 130,037
Ymweliadau yn 2002-03: 116,278
Targed 2003-04: 118,000
Staff: 52
Cyllideb: £1,591,000

Mae Pwll Mawr, a leolir yng nghanol Safle Treftadaeth y Byd ym Mlaenafon, yn cynnig profiad heb ei ail ym Mhrydain, ac un sy'n unigryw i Gymru. Gyda chyn-lowyr yn eu tywys, bydd ymwelwyr yn disgyn 300 troedfedd i ddyfnder y pwll ac yn cael profiad o'r tywyllwch dudew y byddai'r glowyr yn gweithio ynddo ddydd ar ôl dydd. Mae'r nodweddion a'r cyfleusterau pen pwll yn cynnwys adeiladau'r lofa, baddonau pen y pwll, efail y gôf, tŷ'r injan ddirwyn, a chaffi.

Tan Chwefror 2001, bu'r Pwll Mawr yn gweithredu fel Ymddiriedolaeth Elusennol a Chwmni Cyfyngedig annibynnol. Yn ystod 2001-02, bu'n rhaid iddo ymaddasu i fod yn amgueddfa genedlaethol o fewn sefydliad cenedlaethol sydd hefyd yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Roedd y newid hwn yn cyd-fynd â dechrau gwaith ailddatblygu cyfalaf gwerth £8m sydd i fod i gael ei gwblhau yn ystod 2003-04.

**Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru**
**Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin SA44 5UP (01559) 370929**
**Ar gau ar gyfer gwaith ailddatblygu tan ddiwedd 2003**

Ymweliadau yn 2000-01: 9,036 (cyn mynediad am ddim)
Ymweliadau yn 2001-02: 12,576
Ymweliadau yn 2002-03: 0 (ar gau ar gyfer ailddatblygu)
Targed 2003-04: 14,000
Staff: 9
Cyllideb: £399,000

Mae Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru, yng nghanol y wlad yng ngorllewin Cymru, yn adrodd hanes y deugain melin wlân a arferai fod yng nghyffiniau Dre-fach Felindre. Mae Melinau Cambrian – yr unig felin yn y pentref sydd wedi gweithredu'n ddi-dor ers ei hadeiladu – bellach yn gartref i'r Amgueddfa. Mae technegau canrifoedd oed, medrau anghofiedig a ffyrdd traddodiadol o fyw yn bodoli ochr yn ochr â melin wlân lewyrchus sy'n dal i gynhyrchu ar gyfer y farchnad fodern.

Yn ystod y flwyddyn 2001-02 cafodd AOCC bron i £1m oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri i helpu i ailddatblygu'r safle fel amgueddfa flaenllaw yn y Gorllewin. Am hynny, bu'r Amgueddfa ar gau i ymwelwyr ers 1 Mawrth 2002 gyda'r bwriad o ailagor tua diwedd 2003.

Mae'r rhaglen fuddsoddi gwerth £1.8m yn cynnwys atgyweirio adeiladau rhestredig y felin a darparu gwell cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr, cyfleusterau addysg pwrpasol, a dehongliad modern o'r casgliadau.

**Amgueddfa'r Lleng Rufeinig**
**Y Stryd Fawr, Caerllion NP18 1AE (01633) 423134**
**Ar agor Llun–Sad 10am–5pm Sul 2-5pm**

Ymweliadau yn 2000-01: 58,997 (cyn mynediad am ddim)
Ymweliadau yn 2001-02: 70,160
Ymweliadau yn 2002-03: 65,495
Targed 2003-04: 62,000
Staff: 15
Cyllideb: £295,000
Fel rhan o AOCC, mae Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yng Nghaerllion wedi bod yn arddangos casgliad cyfoethog o ddarganfyddiadau Rhufeinig ers 1850. Mae'r rhain yn cynnwys cerfluniau, arysgrifau, cerrig beddi,

defnyddiau adeiladu, mosäig labrinth, offer milwrol, crochenwaith, gwydr a gemwaith. Ceir yno hefyd Stafell Farics maint llawn wedi'i hail-greu, sy'n unigryw ym Mhrydain.

Saif tref Caerllion ar safle un o dri gwersyll llengol parhaol Prydain Rufeinig. Mae Amgueddfa'r Lleng Rufeinig wedi ei hadeiladu ar safle'r pencadlys, yng nghanol y Gaer, ac ar hyn o bryd mae'n denu hyd at 70,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae olion muriau'r Gaer, y baddonau, yr enghraifft orau o Floc Barics datgloddedig yn Ewrop, ac Amffitheatr i'w gweld yn y dref hyd heddiw. Mae grwpiau'n ail-greu golygfeydd Rhufeinig yn yr Amffitheatr, gyda chyfranogwyr rhyngwladol, gan gynnwys Ysgol Gleddyfwyr enwog Ars Dimicandi o Curno, gogledd yr Eidal. Mae'r projectau newydd sydd ar y gweill yn cynnwys creu Gardd Rufeinig.

**Canolfan Gasgliadau AOCC, Nantgarw**
**Heol Crochendy, Parc Nantgarw, CF15 7QT (029) 2057 3560**
**Ar agor i'r cyhoedd drwy drefniant o flaen llaw.**

Mae'r Adran Ddiwydiant yn gweithredu o Nantgarw yng nghymoedd y de, gan wasanaethu gofynion curadurol, cadwraeth ac ymchwil y Casgliadau Diwydiant yn y Ganolfan Gasgliadau ac yn amgueddfeydd hanes cymdeithasol a diwydiannol AOCC.

Mae gweithdai i ymdrin â chadwraeth arteffactau diwydiannol bychain a gweithiau ar bapur wedi cael eu sefydlu yn y Ganolfan Gasgliadau ac mae cyfleusterau peiriannu a gwaith coed wedi cael eu gosod yno'n ddiweddar.

Mae staff yr adran yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad yr amgueddfa ddiwydiant a môr newydd arfaethedig yn Abertawe, yn ogystal ag ailddatblygiad y Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol a gynorthwywyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.